

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

8/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

05/02/2020

Gwerthusiad o Gynllun Peilot Gwaith Chwarae 2019: Llwgu yn ystod y Gwyliau

Teitl: Gwerthusiad o Gynllun Peilot Gwaith Chwarae 2019: Llwg yn ystod y Gwyliau

Awduron:

Kirsten Geary, Uwch-reolwr Polisi Gofal Plant a Chwarae, Llywodraeth Cymru
Catrin Awoyemi, Pennaeth Polisi Chwarae, Llywodraeth Cymru
Faye Gracey, Arweinydd Ymchwil a Thystiolaeth, Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru

Adroddiad Ymchwil Llawn: Geary, K. Awoyemi, C. Gracey, F. (2020). Cynllun Peilot Gwaith Chwarae: Llwg yn ystod y Gwyliau - Gwerthusiad 2019. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 8/2020:
<https://llyw.cymru/llwgu-yn-ystod-y-gwyliau-peilot-gwaith-chwarae>

Barnau'r ymchwilwyr yw'r barnau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o anghenraid farnau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch ag:

Yr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: CyfleoeddChwarae@llyw.cymru

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Mae rhoi bwyd i blant yn ystod gwyliau'r ysgol, pan nad yw clybiau brecwast a phrydau ysgol am ddim ar gael, yn her i rai teuluoedd¹. Yn 2019-20, roedd Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £100,000 i gynllun peilot i brofi dichonoldeb mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau drwy leoliadau chwarae a chymunedol.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad mewnol a gynlluniwyd i asesu effeithiolrwydd y cynllun peilot. A'r nod yw y bydd yn helpu i lywio polisi yn y dyfodol, gan gynnwys penderfyniadau ar gyflawni'r prosiect, er mwyn mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau yn y tymor byr.

Y cefndir

Mae'r cynllun peilot hwn yn datblygu ar lwyddiant Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP); rhaglen addysg sydd hefyd yn darparu prydau i blant sydd mewn perygl o lwgu yn ystod y gwyliau. Er bod SHEP yn ehangu, mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau, yn enwedig gan nad hwnnw yw prif sylw SHEP.

Cafodd y cynllun peilot ei gynnal dros wyliau'r Haf a hanner tymor Hydref yn 2019. Daethpwyd o hyd i leoliadau addas a chysylltu â nhw drwy'r Mentrau Iaith a dau sefydliad ymbarél yn y maes chwarae; Chwarae Cymru a Clybiau Plant Cymru.

Mae gan y sector gwaith chwarae gysylltiadau da â phlant mewn ardaloedd o amddifadedd, a gwybodaeth leol dda am deuluoedd a'u hamgylchiadau. Mae lleoliadau gwaith chwarae eisoes wedi'u hen sefydlu ac mewn sefyllfa dda i ddosbarthu prydau iach i blant sydd mewn perygl o lwgu yn ystod y gwyliau.

Gwerthusiad o'r Cynllun Peilot

Cafodd gwahanol fodelau o'r ddarpariaeth eu profi yn y cynllun peilot. Mewn rhai achosion ychwanegwyd bwyd at ddarpariaeth a oedd eisoes yn bodoli, ac mewn rhai eraill cafodd y bwyd a ddarparwyd eisoes ei wella. Roedd rhai lleoliadau yn archebu bwyd, ac eraill wedi prynu offer ac yn paratoi bwyd eu hunain. Roedd clybiau y tu allan i oriau'r ysgol yn darparu lleoedd ychwanegol i blant na fyddent fel arall wedi gallu cymryd rhan.

¹Comisiynydd Plant Cymru (2019) [Siarter ar gyfer Newid: Amddiffyn Plant yng Nghymru rhag effaith tlodiCyrchwyd](#)

Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yma yn seiliedig ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o ffurflenni monitro 38 o leoliadau ac o holiaduron yn cynnig adborth gan 753 o blant, 346 o rieni a 38 o leoliadau. Gofynnwyd i'r rheini a oedd yn derbyn grant casglu'r ffurflenni a'r holiaduron, a'u dychwelyd ar ein rhan.

Trosolwg o'r Canfyddiadau: Mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau dangosol y cynllun peilot



92 o Safleoedd Chwarae
Mynediad Agored, wedi derbyn
cyfanswm o £67k

6 o Safleoedd y tu
allan i oriau ysgol,
wedi derbyn
cyfanswm o £31K



98 o safleoedd, ar draws 16 o
awdurdodau lleol

**11,300 o leoedd neu
sesiynau ar gyfer:**
- 3,650 o blant yn yr haf
- 450 o blant yn ystod
hanner tymor Hydref

13,000+
o brydau
wedi' u
darparu

Bron hanner nifer y
plant wedi dweud eu
bod yn teimlo' n llai
llwglyd pan oeddent
yn cymryd rhan yn y
cynllun

Cefnogi bwyta'n iach



Y mwyafrif
wedi bwyta
llai o losin ar
ddiwrnodau'
r cynllun



Bron 1 o bob 4
plentyn wedi dweud
iddynt fwyta mwy o
ffrwythau a llysiau

Annog bod yn egnïol



57%
wedi
gwneud
mwy o
vmarfer

74% wedi
rhoi cynnig
ar rywbeth
newydd

Cymorth ariannol i rieni

Mwy na thraean
o rieni wedi
dweud iddo
helpu i leihau
costau, yn
enwedig costau
bwyd



60% o'r lleoliadau wedi gweld
arwyddion bod plant yn
llwglyd, a 10% yn teimlo eu
bod wedi helpu i fynd i'r afael â
hynny

Y buddion ychwanegol a
nodwyd:

- Cael hwyl/teimlo'n hapusach
- Cymdeithasu wrth fwyta prydau
- Cymryd rhan wrth baratoi bwyd
- Yfed mwy o dd r
- Man 'diogel' i ddianc iddo rhag unrhyw wrthdaro gartref
- Mwy o ymdeimlad o gymuned/cymorth lleol
- Yn gwella gwasanaeth(au) ac yn cefnogi cynaliadwyedd lleoliadau

Casgliadau ac argymhellion

Mae'r cynllun yn rhoi cymorth ariannol i gynnig bwyd fel gwasanaeth ychwanegol, neu i wella neu estyn gwasanaeth sy'n rhan o ddarpariaeth gwaith chwarae a ariennir sydd eisoes yn bodoli ac ar gael am ddim i blant sydd mewn perygl o llwgu yn ystod y gwyliau. Ymddengys fod hynny'n ffordd gost-efeithiol o fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau. Mae'r cynllun yn cyd-fynd â chynlluniau eraill sy'n cael eu gweithredu, ac yn eu hategu hefyd.

Mae rhoi cyllid i ariannu lleoedd mewn darpariaeth y telir amdani (sef clybiau y tu allan i oriau'r ysgol fel arfer), yn ffordd ddrutach o fynd ati, ond gallai fod yn ffordd ddefnyddiol o fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau. Mae'n rhoi cyfle i blant nad ydynt fel arfer yn gallu mynd i'r lleoliadau hynny, fanteisio ar gael bwyd, addysg am fwyta'n iach a chyfleoedd gwych i chwarae. Mae hefyd yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol a chlybiau a chynlluniau yn ystod y gwyliau.

Mae ychwanegu bwyd at ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli nad yw'n cynnwys bwyd fel arfer yn cynnig manteision ychwanegol, sy'n cynnwys bod plant yn gallu cymryd rhan wrth baratoi'r bwyd, mae'n addysgu plant am fwyta'n iach, gan annog arferion iach fel rhoi cynnig ar fwydydd newydd, ac eistedd i fwyta mewn amgylchedd cymdeithasol. Ac felly, mae hynny'n gwella'r ddarpariaeth yn gyffredinol.

Ar y cyfan, mae darparu bwyd i leoliadau gwaith chwarae wedi annog plant i fwyta'n iach, er bod rhai enghreifftiau o weithgareddau sy'n gysylltiedig â bwyta bwyd nad yw'n iach, ac o blant yn adrodd eu bod yn bwyta losin a melysion. Gellid gwneud mwy i annog bwyta'n iach drwy'r wybodaeth, y canllawiau a'r hyfforddiant a roddir mewn perthynas â'r lleoliadau.

I gael unrhyw gyllid yn y dyfodol, dylai'r broses o ddethol lleoliadau, dyrannu a dosbarthu cyllid, sicrhau darpariaeth iach a gwerthuso'r ddarpariaeth gael eu llywio gan yr hyn a ddysgwyd o'r cynllun peilot. Mae angen gwneud gwaith ymchwil pellach i ddeall yr holl effeithiau'n iawn.

Cynnwys

1	Cyflwyniad a chyd-destun	7
1.1	Nodau	7
1.2	Cyd-destun	8
2	Dull y Gwerthuso.....	14
3	Dull Cyflawni'r Cynllun Peilot.....	19
4	Canfyddiadau'r ymchwil	22
4.1	Y ddarpariaeth	22
4.2	Canlyniadau'r Cynllun Peilot	26
4.3	Barn am y broses	33
4.4	Cymharu'r cynllun peilot â mentrau eraill sy'n ymwneud â llwgu yn ystod y gwyliau 36	
5.	Casgliadau ac argymhellion	41
5.1	Casgliadau cyffredinol.....	41
5.2	Yr argymhellion i'w hystyried.....	42
	Atodiad A: Dulliau Casglu Data	43

Ffigurau

Ffigur 1: Fframwaith Lefel Uchel y Gwerthuso	14
Ffigur 2: Priodoleddau'r plant a gymerodd ran	24
Ffigur 3: Bwyta bwyd a rhoi cynnig ar fwyd a diod newydd	26
Ffigur 4: A oeddech chi'n teimlo'n llai llwglyd o'u cymharu â'r diwrnodau pan oeddech chi gartref?.....	27
Ffigur 5: Buddion y Clwb neu'r Cynllun Gwyliau i Rieni.....	29
Ffigur 6: Buddion y Cynllun neu'r Clwb Gwyliau i Blant a nodwyd gan Rieni	30
Ffigur 7: Treulio amser gyda ffrindiau a chyfarfod â phobl newydd	31

Tablau

Tabl 1: Amcangyfrif o'r hyn a ddarparwyd gan y peilot i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau, 2019	23
Tabl 2: Cymharu nodau, canlyniadau a chostau cynlluniau sy'n mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau	37

1 Cyflwyniad a chyd-destun

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio ac yn gwerthuso cynllun peilot Gwaith Chwarae ar Llwg yn ystod y Gwyliau a gafodd ei gynnal yn 2019 yn ystod gwyliau'r haf a gwyliau hanner tymor mis Hydref.

Diben y cynllun peilot oedd archwilio a ellid, a sut y gellid, ddefnyddio darpariaeth gymunedol sy'n seiliedig ar chwarae sydd eisoes yn bodoli, er mwyn mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau.

Caiff y papur hwn ei ddefnyddio i asesu a yw'r model hwnnw yn ffordd effeithiol a chost-effeithiol o fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau. Bwriedir iddo fod yn sail ar gyfer polisiau a phenderfyniadau ynghylch cyflwyno cynlluniau yn y dyfodol.

1.1 Nodau

Nod gyffredinol cynllun peilot Gwaith Chwarae ar fynd i'r afael â Llwg yn ystod y Gwyliau oedd profi lleoliadau gwaith chwarae fel cyfrwng i leihau llwgu yn ystod y gwyliau. Nodwyd y gellir defnyddio'r sector chwarae fel ffordd o ddosbarthu prydau sydd eu hangen yn fawr ar blant mewn perygl o llwgu yn ystod y gwyliau oherwydd bod y sector yn cynnig mynediad da.

Cafodd £100,000 o gyllid ei ddyrannu i'r peilot, a'r nod oedd profi sut y gellid mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau gan ddefnyddio lleoliadau gwaith chwarae drwy ddefnyddio gwahanol fodelau (gweler Adran 3: Dull Cyflawni'r Cynllun Peilot).

Y canlyniadau a ddisgwyliwyd mewn perthynas â'r plant oedd:

1. Bwyd
 - Lleihau llwgu yn ystod y gwyliau
 - Bwyta'n iachach
 - Llai o bwysau ariannol ar rieni
2. Cyfleoedd gwyb i chwarae a phrofiadau mwy cadarnhaol
 - Cymdeithasu
 - Bod yn egniol
 - Cael hwyl / teimlo'n hapus
 - Dysgu rhywbeth newydd

Ceir hefyd fantais ychwanegol i rieni, sef gofal plant neu amser iddyn nhw eu hunain tra bo'r plant yn mynd i'r lleoliad.

Mae'r gwerthusiad hwn yn ceisio mesur y canlyniadau disgwyliedig hyn a chynnig sylwadau ar gost-effeithiolrwydd y modelau gwahanol. Mae hefyd yn cymharu'r canlyniadau a'r costau dangosol â'r cynlluniau hysbys eraill a oedd yn ymwneud â llwgu yn ystod y gwyliau a ddisgrifir yn nes ymlaen yn yr adran hon (gweler adran 4.4).

1.2 Cyd-destun

Rydym yn amlinellu tystiolaeth gefndir a sail resymegol y cynllun peilot yn yr adran hon, gan gynnwys nodi mentrau tebyg eraill.

Beth yw Llwgu yn ystod y Gwyliau?

Mae'r cynnydd mewn tlodi bwyd yn y DU wedi'i ddogfennu'n fanwl (Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, Eglwys Lloegr, Oxfam GB, Ymddiriedolaeth Trussell, 2014²). Dengys gwaith ymchwil diweddar gan Lywodraeth Cymru fod rhai pobl yng Nghymru yn datgan eu bod yn dioddef tlodi bwyd. Nodwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 er enghraifft, bod 3% o aelwydydd wedi derbyn bwyd o fanc bwyd yn y 12 mis diwethaf. Yn 2016-17, y ganran oedd 1% (er na ellir cymharu'r canlyniadau'n uniongyrchol)^{3, 4}.

Gall y pwysau ariannol a wynebier gan deuluoedd ar incwm (gwario) isel fod yn anoddach yn ystod gwyliau'r ysgol⁵. Rhaid iddynt ddod o hyd i arian ychwanegol i dalu am y prydau ysgol am ddim y mae eu plant yn eu cael fel arfer yn ystod y tymor. Yn aml, mae'n rhaid i rieni dalu am fwy o ofal plant, ac mae'r gweithgareddau y gallai pobl ifanc gymryd rhan ynddynt, fel cynlluniau chwarae a gwibdeithiau, wedi'u cyfyngu yn ôl cost. Gall teuluoedd ei chael yn anodd i dalu costau trafnidiaeth a byrbrydau hefyd.

Plant sy'n fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol⁶. Canfu gwaith ymchwil fod plant o deuluoedd tlotach yn fwy tebygol o adrodd am lesiant gwaeth o'u cymharu â phlant o deuluoedd cyfoethocach. Gwyddom hefyd fod problemau fel ansicrwydd ac unigrwydd sy'n gysylltiedig â bwyd yn gallu cael effaith andwyol ar iechyd a lles meddyliol. Mae rhywfaint o dystiolaeth fod plant a phobl ifanc o deuluoedd ar incwm isel yn aml yn dioddef mwy o weld eisiau'r dysgu yn ystod gwyliau'r ysgol na'u cymheiriaid⁷. Gall gwahaniaethau mewn profiadau plant yn ystod gwyliau'r ysgol olygu y gallent gymryd yn hirach i ailafael â ble roedden nhw arni yn yr ysgol ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol.

Roedd astudiaeth a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ar Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol (HBSC)/astudiaeth y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn

² CPAG (y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant), CofE (Eglwys Lloegr, Oxfam GB, Ymddiriedolaeth Trussell, 2014, [Emergency Use Only: Understanding and Reducing the Use of Food Banks in the UK](#)

³ yn sgil newid yn y ffordd y gofynnwyd y cwestiwn yn 2018-19

⁴ Llywodraeth Cymru (2019) [Llesiant Cymru, 2018-19](#)

⁵ Stewart, H. Watson, N. Campbell, M (2018) [The cost of school holidays for children from low income families](#).

⁶ Llywodraeth Cymru (2019) [Llesiant Cymru, 2018-19](#)

⁷ The Childhood Trust (2018) [A Summer Holiday from Hell](#)

Ysgolion (SHRN) wedi casglu data gan ychydig dros 100,000 o bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru yn 2017/18⁸. Prif negeseuon y dadansoddiad yw:

- Yn unol ag ymchwil flaenorol, roedd statws economaidd-gymdeithasol isel yn gysylltiedig â llesiant gwaeth.
- Roedd tua un o bob 16 plentyn wedi datgan eu bod 'yn aml' neu 'bob amser' yn mynd i'r gwely yn llwgu yn ystod gwyliau'r haf.
- Roedd mwy nag un o bob pedwar plentyn wedi datgan nad oeddent erioed neu yn anaml yn gwneud ymarfer corff yn ystod cyfnod gwyliau'r haf.
- Roedd bron un o bob chwe phlentyn wedi datgan eu bod yn aml yn profi teimladau o unigrwydd yn ystod gwyliau'r haf.
- Roedd pob un o'r profiadau hyn yn ystod gwyliau'r haf yn gysylltiedig â chanlyniadau llesiant ac iechyd meddwl pobl ifanc.
- O'r holl newidynnau a gafodd eu cynnwys yn y dadansoddiad, yr adroddiadau ar unigrwydd a oedd yn dangos y cysylltiad mwyaf ag adroddiadau ar lesiant ac iechyd meddwl gwaeth.

Awgrymodd yr awduron fod gan yr astudiaeth rhai goblygiadau pwysig⁹:

- Gallai ymyriadau yn ystod gwyliau'r ysgol (e.e. drwy ddarparu bwyd maethlon, cyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol a lleihau unigrwydd) gynnig potensial sylweddol i leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant ar gyfer pobl ifanc sy'n mynd yn ôl i'r ysgol.
- Mae'n debygol mai un o fecanweithiau pwysicaf ymyriadau gwyliau'r ysgol o ran lleihau anghydraddoldebau yw lleihau teimladau o unigrwydd.
- Mae ymyriadau gwyliau'r ysgol yn cynnig ateb yn y tymor byr, ond bydd angen atebion strwythurol ar anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol.

⁸ Kelly Morgan *, G. J. Melendez-Torres, Amy Bond, Jemma Hawkins, Gillian Hewitt, Simon Murphy a Graham Moore (2019) Socio-Economic Inequalities in Adolescent Summer Holiday Experiences, and Mental Wellbeing on Return to School: [Analysis of the School Health Research Network/Health Behaviour in School-Aged Children Survey in Wales](#).

⁹ Noder: Mae'r ffaith bod gan yr astudiaeth sampl fawr gynrychiadol o bobl ifanc o bob rhan o Gymru yn fantais, ond er gwaethaf hynny, mae'n bwysig cydnabod y cyfyngiadau posibl, sy'n cynnwys: defnyddio mesurau hunanadrodd a allai gael eu heffeithio gan ragfarn wrth ddwyn i gof a'r hyn sy'n briodol yn gymdeithasol; arwyddion anuniongyrchol o gyfoeth teulu, er defnyddio dull hirsefydlog sydd wedi'i ddilysu'n dda; ansicrwydd sy'n gysylltiedig â bwyd a gaiff ei fesur yn ôl teimlo'n llwglyd yn hytrach nag ansawdd bwyd; ac mae natur trawstoriadol y data'n golygu na ellir cadarnhau cyfeiriad y dadansoddiad.

Mae'r berthynas rhwng prydau ysgol am ddim a llwgu yn ystod y gwyliau yn arwyddocaol, ac mae tua 170 o ddiwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau ysgol yn ystod y flwyddyn. Felly nid yw prydau ysgol am ddim ar gael i ddisgyblion ar y diwrnodau hynny (Graham, 2014¹⁰). Fodd bynnag, mae awduron adroddiad HBSC/SHRN yn nodi bod mwy o bwyslais ar gynnal ymyriadau yn ystod cyfnod gwyliau'r haf i leihau anghydraddoldebau, ond nad yw astudiaethau wedi modelu rôl profiadau yn ystod gwyliau'r haf o ran egluro anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn perthynas â llesiant.

Mae achosion llwgu yn ystod y gwyliau yn gymhleth ac yn amrywiol. Mae gwaith ymchwil wedi tynnu sylw at ystod cymhleth o ffactorau sy'n cyfrannu ato, gan gynnwys diweithdra/tangyflogaeth, cyflogau isel, costau tanwydd sy'n codi, newidiadau i'r system fudd-daliadau, cosbau budd-daliadau.¹¹

Canfu arolwg diweddar o rieni y mae incwm eu haelwyd yn £25,000 neu'n llai (sef y cyflog cyfartalog yng Nghymru) nad oedd 60 y cant o rieni y mae incwm eu haelwyd yn llai na £25,000 bob amser yn gallu fforddio prynu bwyd y tu allan i dymhorau'r ysgol, a bod y ffigur hwn yn codi i 73 y cant ar gyfer aelwydydd y mae eu hincwm yn llai na £15,000. Roedd traean o'r rhieni'n adrodd eu bod yn colli pryd yn ystod gwyliau'r haf fel y gallai eu plant gael bwyd.¹²

Pam defnyddio chwarae i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau?

Mae chwarae yn elfen hanfodol mewn datblygiad plentyn, ac yn rhywbeth sy'n gallu sicrhau ffactor amddiffynnol cryf ym mywydau plant. Mae chwarae a darpariaeth chwarae wedi'i staffio yn cael effaith gadarnhaol ar blant a'u teuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Gall chwarae amddiffyn plant rhag agweddau negyddol tlodi, a'u helpu i ddatblygu eu hadnoddau mewnol a chryfhau eu gwytnwch i allu ymdopi ag anawsterau ac ansicrwydd sy'n ymwneud â'u cartref ac agweddau eraill ar eu bywydau. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn apelio at deuluoedd sy'n cael budd o systemau atal yn gynnar. Felly, mae gan y sector chwarae gysylltiadau â phlant sydd mewn perygl o lwgu yn ystod y gwyliau, gan gynnwys gwybodaeth dda am amgylchiadau teuluol y plant hynny.

Mae cynrychiolwyr o'r sector o'r farn bod eu lleoliadau mewn sefyllfa dda i gefnogi plant sydd angen bwyd fwyaf yn ystod gwyliau hir yr haf i gael y bwyd hwnnw.

¹⁰ Graham, L, 2014, [170 Days](#)

¹¹ Lambie, M. H, a Sims, L. 'Feeding Hungry Children': The Growth of Charitable Breakfast Clubs and Holiday Hunger Projects in the UK. *Children & Society*, [s. l.], v. 32, n. 3, p. 244–254, 2018.c

¹² YouGov 2015. Cited LAMBIE, M. H.; SIMS, L. 'Feeding Hungry Children': The Growth of Charitable Breakfast Clubs and Holiday Hunger Projects in the UK. *Children & Society*, [s. l.], v. 32, n. 3, p. 244–254, 2018.

Roedd nifer o unigolion o'r sector wedi ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru yn 2018-19 i roi dadl o blaid y ffordd y mae gwaith chwarae yn mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau. Roedd y Prif Weinidog wedi ymweld â lleoliad chwarae yng Ngogledd Cymru hefyd, a oedd wedi helpu i gryfhau'r achos ymhellach. Roedd Prif Weinidog Cymru wedi cytuno i ystyried modelau sy'n seiliedig ar y gymuned ac ar chwarae i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau a fyddai'n cyd-fynd â modelau sydd eisoes ar y gweill, fel Rhaglen Gwella'r Gwyliau Haf (SHEP) (gweler isod).

Cafodd hynny ei adleisio gan y Comisiynydd Plant sydd, er ei bod yn fodlon ar gynllun SHEP a'i ymestyn ymhellach, wedi galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar amrywiaeth o fodelau, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu harwain gan gymunedau, er mwyn sicrhau bod y cynlluniau'n cyrraedd cynifer o blant ag sy'n bosibl.¹³

Ym mis Ebrill 2019 cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd gyllid o £100k a fyddai ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Roedd y cyllid hwnnw ar gael i ganiatáu bod lleoliadau cymunedol a chwarae yn gwella neu'n ehangu eu darpariaeth bwyd neu fod lleoedd ar gael i blant a phobl ifanc mewn ardaloedd sydd â lefelau uchel o amddifadedd a pherygl llwgu yn ystod y gwyliau. Bwriedir i'r cynllun peilot gyd-fynd â chynllun SHEP, ac nid iddynt gystadlu â'i gilydd.

Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP)

Mae Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP) a arweinir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)¹⁴ yn gynllun sydd wedi'i seilio mewn ysgolion. Mae'n cynnig sesiynau gwella, prydau iach, addysg am fwyd a maetheg, a gweithgareddau corfforol i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn ystod gwyliau'r haf. Prif nod SHEP yw lleihau effeithiau colli cyfleoedd dysgu i blant mewn ardaloedd o amddifadedd dros wyliau hir yr haf, a allai gyfrannu at gynyddu'r bwlch rhwng cyrhaeddiad. Mae hefyd yn helpu teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd fforddio bwyd neu gael hyd i fwyd sy'n cynnig deiet iach yn ystod gwyliau'r ysgol - pan nad yw cael Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd a Phrydau Ysgol am Ddim ar gael. Caiff y ddarpariaeth ei chynnal mewn lleoliadau gofal plant ysgolion, a staff y ffreutur sy'n darparu'r prydau. Felly, mae'r ddarpariaeth wedi'i chyfyngu i'r ysgolion hynny sydd â chyfleusterau ffreutur. Cynigir y ddarpariaeth dros gyfnod o dair neu bedair wythnos (am ddim llai na 12 diwrnod) i gohortau o 40 o blant ar gyfer pob uned yn ystod gwyliau'r haf.

Seilir cynllun SHEP ar ddarparu gweithgareddau stwythuredig er mwyn lleihau effeithiau colli cyfleoedd dysgu mewn ardaloedd o amddifadedd dros gyfnod hir

¹³ Siarter ar gyfer Newid: [Amddiffyn Plant yng Nghymru rhag effaith tlodi 2019](#)

¹⁴ [Bwyd a Hwyl' Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf \(SHEP\)](#)

gwyliau'r haf. Er bod bwyd yn cael ei ddarparu, ac mae'n cyfrannu at fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau, nid hwnnw yw prif ffocws y cynllun.

Mae gwerthusiad o gynllun SHEP 2018 ar gael ar wefan CLILC, a defnyddiwyd hwnnw fel data cymharol ar gyfer y gwerthusiad hwn. Yn 2018 roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi £500,000 i gynllun SHEP, gan ehangu'r ddarpariaeth i 16 o awdurdodau lleol, gan feithrin cysylltiadau â 7 bwrdd iechyd lleol, a darparu 52 o gynlluniau. Roedd cyfanswm o tua 2,300 o blant wedi elwa ar gynllun SHEP yn ystod gwyliau ysgol haf 2018.¹⁵ Yn 2019, dyrannwyd £800,000 i gynllun SHEP, ac mae gwerthusiad ar y gweill.¹⁶

Mae cynllun peilot Gwaith Chwarae Llwg yn ystod y Gwyliau yn rhoi sylw i fwyd a chwarae, ac o ganlyniad mae'r cynllun yn cyd-fynd â chynlluniau eraill yn hytrach na chystadlu â nhw. Ystyriwyd hynny'n ofalus wrth ddethol lleoliadau ar gyfer cynllun peilot Gwaith Chwarae er mwyn osgoi dyblygu.

Mentrau eraill a ddefnyddir i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau

Nod yr elusen StreetGames¹⁷ drwy chwaraeon yw cheisio newid bywydau, a newid chwaraeon a chymunedau er gwell. Gwnaiff hynny drwy gydweithio â rhwydwaith o sefydliadau lleol y gellir ymddiried ynddynt, gan gynnwys grwpiau cymunedol, awdurdodau lleol, clybiau chwaraeon a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â llesiant pobl ifanc a phobl ifanc dan anfantais. Roedd arolwg StreetGames 2019 ar y rhwydwaith wedi tynnu sylw at y ffaith bod 69% o'u partneriaid sy'n Sefydliadau Lleol yr Ymddiriedir ynddynt, yn rhoi blaenoriaeth uchel neu ganolog i 'fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau'.

Roedd StreetGames wedi lansio ei ymgyrch 'Fit and Fed' yn 2016. Mae'r fenter yn darparu gweithgareddau corfforol a bwyd sy'n gost-effeithiol ac ar gael am ddim i bobl ifanc sy'n byw mewn cymunedau o amddifadedd mawr dros gyfnod gwyliau'r ysgol.

Yn ystod haf 2019, cafodd cyfanswm o 289 o sesiynau eu cyflwyno ar draws 43 o safleoedd mewn ardaloedd 10 o awdurdodau lleol yng Nghymru.¹⁸

- Cafodd 2,800 o bobl ifanc eu cefnogi
- Cafodd 289 o sesiynau eu cyflwyno
- Cafodd 12,000 o brydau eu darparu
- Y gost gyfartalog ar gyfer pob sesiwn oedd £9.36

¹⁵ [Adroddiad Rhaglen Gwella'r Gwyliau \(SHEP\) 2018](#)

¹⁶ Disgwylir y caiff y gwerthusiad ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2020.

¹⁷ [StreetGames](#)

¹⁸ [Adroddiad Fit and Fed StreetGames Cymru Haf 2019](#)

- Roedd 95% o'r rheini a gymerodd ran wedi nodi bod sesiynau Fit and Fed yn 'Dda' neu'n 'Wych'.

Ceir cymhariaeth lefel uchel o SHEP ac ymgyrch Fit and Fed, gan ystyried mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau cynllun peilot Gwaith Chwarae Llwg yn ystod y Gwyliau, yn Nhabl 2, Adran 4.

2 Dull y Gwerthuso

Yn yr adran hon, rydym yn nodi'r hyn a wnaed i werthuso'r cynllun; gan gynnwys yr amcanion cyffredinol a fframwaith y gwerthusiad o'r peilot. Mae hynny'n cynnwys y prif allbynnau a ddisgwylir a'r canlyniadau.


2.1 Nod y Gwerthuso

Fel y datganwyd uchod, nod cyffredinol y gwerthusiad hwn yw asesu a yw'r model a ddilynir ar gyfer cynllun Llwg yn ystod y Gwyliau Gwaith Chwarae yn ffordd effeithiol a chost-effeithiol o fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau. Mae'r ymarfer mewnol hwn wedi'i gynllunio i gael ei gyflawni'n brydlon, er mwyn llywio polisi yn y dyfodol a phenderfyniadau ynghylch cyflwyno cynllun yn 2020, a'r tu hwnt o bosibl.

2.2 Fframwaith y Gwerthuso

Mae'r map gweledol lefel uchel isod yn dangos sut y disgwylid i'r gweithgareddau a ymgymeryd fel rhan o'r cynllun peilot hwn arwain at newidiadau yr oeddwn wedi gobeithio eu gweld yn y gwerthusiad hwn. Mae'r adrannau dilynol yn yr adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ynghylch a yw'r cynllun peilot wedi gwireddu'r prif allbynnau a chanlyniadau hynny.

Ffigur 1: Fframwaith Lefel Uchel y Gwerthuso



Dylid nodi bod y canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys canlyniadau tymor-byr yn unig. O fewn cyfnod byr, nid yw'n bosibl gweld na phennu effeithiau hir dymor y prosiect ar hyn o bryd, e.e. unrhyw gyfraniad at y Dangosyddion Cenedlaethol i Gymru (a ddangosir yn fframwaith y gwerthusiad yn Ffigur 1 uchod), fel y gellid disgwyl mewn rhaglenni mwy sydd wedi'u hen sefydlu.

2.3 Dull gweithredu

I'r graddau y mae hynny'n bosibl, rydym wedi ceisio cyfyngu baich y gwaith monitro a gwerthuso i leoliadau a chyfranogwyr y gwaith ymchwil. Gan geisio sicrhau ar yr un pryd bod gennym y data a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddysgu gwersi o'r cynllun peilot hwn.

Un o'r prif bethau sy'n cyfyngu ar y gwerthusiad hwn yw bod yr holl ddata a ddarparwyd wedi'u hadrodd gan yr unigolion eu hunain, a'u hanfon i Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol o leoliadau i'w dadansoddi. Fel rhan o'r meini prawf ar gyfer lleoliadau'r cynllun peilot, roedd angen iddynt gadarnhau a allent hwyluso a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwybodaeth a fyddai'n helpu i werthuso'r cynllun peilot, gan y byddai hynny'n cefnogi'r achos dros ariannu cynllun o'r fath yn y dyfodol. Ni chafodd y data eu casglu, eu harsylwi na'u dilysu yn annibynnol.

Roedd yr holiaduron a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad wedi'u seilio ar y rheini a ddefnyddiwyd i werthuso cynllun SHEP yn 2017¹⁹, lle gwelwyd gorgyffwrdd o ran amcanion. Mae gwerthusiad 2019 SHEP (a ddisgwyli'r ystod gwanwyn 2020) a gwerthusiadau blaenorol wedi'u cynnal ar raddfa fwy, gan adlewyrchu'r ffaith bod y rhaglen sylweddol hon, sydd wedi'i hen sefydlu, wedi datblygu a bod buddsoddiad llawer mwy sylweddol o arian cyhoeddus.

Gallwch weld y deunyddiau casglu data yn Atodiad A, a rhoddir y cyfraddau ymateb yn y paragraffau priodol isod.

2.4 Dulliau

Mae'r gwerthusiad wedi ystyried y canlynol:

- Gwybodaeth fonitro o leoliadau (cyfanswm o 38)
- Holiaduron a lenwyd gan swyddogion y lleoliadau (cyfanswm o 38)
- Ymatebion i'r arolwg gan blant a phobl ifanc (cyfanswm o 753)
- Ymatebion i'r arolwg gan oedolion a oedd mynd â'r plant a'r bobl ifanc i'r lleoliadau (cyfanswm o 346)

¹⁹ [Rhaglen Gwella'r Gwyliau 'Bwyd a Hwyl' 2017- Adroddiad Gwerthuso.pdf - Mai-2018](#)

- Gwybodaeth bleidleisio a gasglwyd gan blant a phobl ifanc, a chan oedolion a oedd yn bresennol yn y lleoliadau gyda nhw

Rhoddir gwybodaeth ychwanegol isod am ffynonellau'r dystiolaeth.

Gwybodaeth fonitro'r lleoliadau

Roedd cyfanswm o 46 o leoliadau neu sefydliadau yn cymryd rhan ar draws 98 o leoliadau. Roedd 38 ohonynt wedi dychwelyd ffurflen fonitro a oedd yn nodi nifer y lleoedd, presenoldeb, a'r prydau a gafwyd yn y lleoliadau dros gyfnod y cynllun peilot. Roedd hefyd yn darparu gwybodaeth am nifer y diwrnodau, sesiynau a hyd y sesiynau. Yn ogystal, casglwyd gwybodaeth am nifer y plant a gymerodd ran, eu hoedran, eu rhywedd a oedd ganddynt anabledd neu anghenion ychwanegol. Gwnaethpwyd rhai amcangyfrifon ar gyfer ffurflenni monitro a gollwyd, ond er gwaethaf hynny mae'r ffigurau a ddarperir yma yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel o hyd ar gyfer maint y ddarpariaeth. Gallwn fod yn hyderus ein bod wedi darparu ar gyfer o leiaf nifer y plant a'r prydau sy'n cael eu hadrodd amdanynt yma.

Holiaduron ymateb y lleoliadau

Unwaith eto, dychwelwyd 38 o holiaduron o gyfanswm o 46 o'r lleoliadau a gymerodd ran yn y cynllun peilot. Roedd yr holiadur yn gofyn i arweinydd y lleoliad am y pethau ymarferol a oedd yn ymwneud â chynnal y cynllun, ac am sut y cafodd y cyllid ei ddefnyddio, ac a oeddent o'r farn ei fod wedi gwneud gwahaniaeth. Gofynnwyd hefyd am yr hyn a weithiodd yn dda ac am beth y gellid bod wedi'i wneud i wella'r cynllun.

Arolwg o Safbwyntiau'r Plant a'r Bobl Ifanc

Cafodd hwn ei ddefnyddio i asesu a oedd y sesiwn a ddarparwyd wedi helpu'r plant ac i gael gwybod eu safbwyntiau am y bwyd a'r gweithgareddau a ddarparwyd. Cafodd y ffurflen ei llenwi'n ddi-enw gan y plentyn yn y lleoliad, yn ystod diwrnodau olaf mynd i'r lleoliad, er mwyn iddynt fod wedi cael digon o brofiad o'r lleoliad i roi eu barn. Rhoddwyd cymorth i'r plant hynny a oedd angen help i lenwi'r holiadur, ond roedd y plentyn yn cael ei annog i fod yn onest wrth ateb.

Nid oedd angen i'r lleoliadau hynny a oedd yn cynnwys nifer mawr o blant ofyn i bob plentyn lenwi holiadur oherwydd y byddai hynny wedi cymryd gormod o amser. Cawsant eu hannog i gyrraedd cyfradd ymateb o 25% o bobl a ddewiswyd ar hap, er mwyn cynnig digon o wybodaeth i fod yn sail ar gyfer y gwerthusiad hwn heb fod yn ormod o faich i'w gweinyddu.

Holiaduron ymateb y rhieni

Defnyddiwyd y rhain i asesu safbwyntiau'r rhieni, canlyniadau o ran y plant, a'u bodlonrwydd nhw eu hunain a bodlonrwydd eu plant o ran y bwyd a'r gweithgareddau a ddarparwyd. Cafodd yr holiadur ei lenwi'n ddi-enw gan y rhiant neu'r gwarcheidwad yn y lleoliad pan fyddant yn dod i gasglu plentyn neu yn ystod gweithgarwch ar gyfer y teulu os oedd hynny'n bosibl. Roedd pedwar gwarchodwr plant wedi llenwi holiadur hefyd. Os nad oedd y rhieni/gwarcheidwaid wedi dod i gasglu eu plant, roedd y plant wedi mynd â nhw adref a'u dychwelyd yn y sesiwn nesaf.

Roedd yr oedolion a gwblhaodd yr arolwg wedi dod â 646 o blant ar y cyd i'r clwb gwyliau neu'r cynllun yr oeddent wedi mynd iddynt.

Mannau pleidleisio i rieni a phlant

Sefydlwyd manau pleidleisio wythnosol i gael gwybod pa mor fodlon oedd y plant a'u rhieni am y lleoliad a'r bwyd a ddarparwyd. Roedd yr ymatebwyr yn gallu pleidleisio drwy ddefnyddio tri 'emoji' (wyneb hapus, wyneb niwtral a wyneb anhapus) i gwestiynau sylfaenol fel "Beth oedd eich barn ynghylch y clwb / grŵp / cynllun hwn heddiw?"

Bwriedir i hynny gynnig ffordd ryngweithiol i rieni a phlant roi adborth. Ond mewn gwirionedd, roedd yr wybodaeth bleidleisio a gafwyd yn anodd i'w dadansoddi, gan nad oedd yn ddigon cysylltiedig â'r wybodaeth fonitro; roedd hi'n anodd gwybod pwy oedd wedi ymateb ac a oedd nifer o ymatebion wedi'u rhoi gan unigolyn neu fwy o bobl.

2.5 Cyfyngiadau

Nid yw pob un o leoliadau cynllun peilot Llwg yn ystod y Gwyliau Gwaith Chwarae wedi'u cynnwys a'u hystyried yn y gwerthusiad hwn, fel y nodir uchod. Mae hynny'n debygol o fod wedi arwain at beidio ag adrodd am rai o allbynnau'r cynllun peilot (e.e. nifer y prydau a ddarparwyd, a nifer y plant a oedd yn bresennol), gan nad ydym wedi derbyn adroddiadau monitro gan bob lleoliad. Ond, gallai hynny olygu hefyd nad yw'r canfyddiadau a gyflwynir yma yn gynrychiadol ar gyfer pob lleoliad a gymerodd ran. Felly, mae'n rhaid trin y canfyddiadau'n ofalus.

Nid yw'n bosibl pennu faint yn union o'r cyfraddau ymateb sy'n gysylltiedig â nodweddion a phriodoleddau lleoliadau'r cynllun peilot, gan inni ofyn am ymatebion di-enw yn unig yn fwriadol. Ni fu'n briodol inni bwysoli'r data mewn unrhyw ffordd am y rheswm hwnnw, ond mae'n debygol bod rhai grwpiau demograffig-gymdeithasol

wedi elwa mwy neu lai ar y gwahanol fodelau, ac mae'n bosibl bod amrywiadau eraill o ran y canlyniadau, e.e. rhai daearyddol.

Roedd cadw'r ymatebwyr yn anhysbys yn fwriadol er mwyn annog ymatebion agored ac onest i gwestiynau'r arolwg. Roeddem yn ymwybodol o'r ffaith na fyddai rhai ymatebwyr am ddatgelu eu hamgylchiadau penodol, yn enwedig os oeddent yn ei chael hi'n anodd i fwydo eu teulu neu os oeddent yn newynnog. Felly, mae'r ffaith fod y gwerthusiad yn anhysbys hefyd yn un o'i gryfderau.

O ran cyfyngiadau, mae'n bwysig nodi eto nad gwerthusiad annibynnol yw hwn. Cafodd y data eu darparu'n uniongyrchol gan swyddogion y lleoliadau, heb unrhyw gymorth ar gyfer gweinyddu'r dulliau casglu data nac ychwaith unrhyw brosesau sicrhau ansawdd. Ni chafodd asesiad o sefyllfa wrthffeithiol ei gynnal; ni wyddom beth fyddai wedi digwydd pe na fyddai'r cynllun peilot wedi'i gynnal, ac felly yn sgil hynny beth y mae'r cynllun peilot wedi'i ddarparu sy'n ychwanegol.

Roedd pum lleoliad wedi nodi y gallai proses y gwerthusiad fod wedi'i gwella, oherwydd:

- roedd angen cymorth ar blant i lenwi'r holiadur ac roedd hynny'n cymryd gormod amser i staff
- roedd cael pobl ifanc i gwblhau'r ffurflenni gwerthuso yn anodd
- roedd methu cael hyd i rieni'n golygu bod cael adborth ganddynt yn anodd i'w gasglu.

Ar ben hynny, mae'r gwaith dadansoddi wedi'i gynnal gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Bwriedir i'r ffaith bod un o Ymchwylwyr Cymdeithasol y Llywodraeth (GSR) wedi'i gynnwys fel rhan o'r tîm gwerthuso, sy'n dilyn safonau proffesiynol ²⁰²¹ a phrotocolau cyhoeddedig, yn ychwanegu bod y gwaith wedi'i seilio ar ddadansoddi beirniadol, gwrthrychedd a thryloywder.

Os caiff y cynllun ei ehangu, bydd rhaid trefnu gwerthusiad mwy trylwyr.

²⁰ [Ewch i wefan GOV.UK i gael rhagor o wybodaeth](#)

²¹ [Megis Cod Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth](#) – sy'n cynnwys Pobl a Chynhyrchion

3 Dull Cyflawni'r Cynllun Peilot

Yn yr adran hon, rydym yn egluro'r modd yr aethpwyd ati i gyflawni Cynllun Peilot Llwg yn ystod y Gwyliau Gwaith Chwarae 2019; nodwyd y meini prawf cymhwysra, gwybodaeth am y modd y daethpwyd o hyd i leoliadau a'r modd y recriwtiwyd pobl i gymryd rhan, ochr yn ochr â gwybodaeth am sut y dosbarthwyd y cyllid. Mae'r wybodaeth hon wedi ei darparu'n bennaf gan swyddogion Llywodraeth Cymru, sydd wedi bod yn drafftio'r adroddiad hwn.

3.1 Lleoliad cymwys

Roedd y lleoliadau a oedd yn gymwys i gymryd rhan yn y cynllun peilot hwn yn rhai a allai ddangos y canlynol:

- eu bod mewn ardaloedd sydd ag anghenion (lefel uchel o brydau ysgol am ddim neu amddifadedd neu dlodi)
- eu bod yn defnyddio'r cyllid ychwanegol i ehangu'r ddarpariaeth i blant a fyddai fel arall methu defnyddio'r gwasanaeth, neu wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant sydd eisoes yn ei defnyddio
- cynnal y cynllun peilot dros wyliau ysgol haf 2019 neu ran o'r gwyliau hynny - gellir hefyd cynnal y ddarpariaeth dros hanner tymor mis Hydref
- darparu cyfleoedd chwarae gwych i blant a phobl ifanc
- gallu darparu pryd, byrbryd a diod iach (nid oes rhaid i'r pryd fod yn un poeth), yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar fwyd a maeth i ddarparwyr gofal plant²²
- fod eisoes wedi'i sefydlu ac yn gweithredu (rhaid bodloni'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â gweithredu'r math hwnnw o leoliad, gan gynnwys cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru, os yw'n berthnasol neu weithredu o fewn eithriadau Safonau Gofynnol Cenedlaethol)²³
- cynnig lleoliadau cymunedol, mynediad agored neu ofal plant y tu allan i oriau'r ysgol sy'n darparu chwarae a bwyd fel rhan o'r gwasanaeth
- cydweithio â ddarparwr bwyd sydd wedi'i gofrestru â'i awdurdod lleol i ddarparu bwyd, ac wedi ennill tystysgrifau Hylendid Bwyd perthnasol, neu wedi ennill tystysgrifau o'r fath ei hun
- sicrhau bod gan bob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y lleoliad dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
- sicrhau bod gan y lleoliad bolisi diogelwch a bod aelodau allweddol o'r staff yn cael eu hyfforddi'n briodol
- gallu cyflwyno'r gwasanaeth o fewn y gyllideb a neilltuir

²² [Canllawiau bwyd a maeth ar gyfer lleoliadau gofal plant](#)

²³ [Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed](#)

- cadw cofrestr o'r plant a'r bobl ifanc sy'n manteisio ar y ddarpariaeth, gan gofnodi'r oriau a'r rheini ohonynt a ddewisodd gael bwyd
- dosbarthu holiaduron ymateb i staff, plant a rhieni
- bod yn wahanol i fentrau eraill sy'n cael eu hariannu, e.e. SHEP (CLILC) a 'Fit and Fed' (StreetGames), a'i gwneud yn glir bod y prosiectau hynny wedi'u sefydlu am resymau gwahanol, er eu bod yn rhai cysylltiedig.

Nid oedd yn rhaid i leoliadau fod wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru i fod yn gymwys i gymryd rhan yn y cynllun peilot hwn, gan y byddai hynny wedi eithrio nifer o leoliadau sy'n gysylltiedig â chwarae ac sy'n gweithredu o dan Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010²⁴. Roedd yn rhaid i'r lleoliadau sicrhau a dangos y gallant weithredu o fewn eithriadau Safonau Gofynnol Cenedlaethol, a chadarnhau eu bod yn defnyddio egwyddorion *Yr Hawl Cyntaf...fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae*²⁵ yn eu gwaith. Mae'r rheini'n galluogi gweithwyr chwarae, ac unrhyw oedolion eraill sydd â diddordeb mewn chwarae plant, i ddadansoddi, drwy arsylwi ac adlewyrchu ar yr amgylcheddau chwarae y maent yn eu gweithredu. Mae'n cynnig fframwaith i asesu ansawdd yr hyn sy'n cael ei ddarparu a'i brofi.

Roedd y lleoliadau wedi gallu penderfynu ar y canlynol:

- Hyd y sesiynau
- Ystod oedran y plant
- Faint o ddiwrnodau /wythnosau yr oeddent yn cynnal y cynllun yn ystod gwyliau'r haf.

3.2 Y lleoliadau a wahoddwyd i gymryd rhan

Gan fod y cynllun peilot ar raddfa fechan ac yn cael ei gynnal o fewn cyfnod byr, gofynnwyd am gyngor gan Chwarae Cymru, Clybiau plant Cymru a'r Mentrau Iaith ynghylch lleoliadau addas i'w cynnwys yn y peilot. Gwnaed hynny er mwyn bod yn barod ar gyfer gwyliau ysgol haf 2019, yn hytrach na gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb. Chwarae Cymru a Clybiau Plant Cymru yw'r prif sefydliadau ymbarél yn y maes chwarae yng Nghymru, ac ymgynghorwyd â'r Mentrau Iaith i sicrhau bod lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnwys hefyd. Dylai unrhyw brosiect a gaiff ei gyflwyno yn y dyfodol ystyried y lleoliadau i'w cynnwys mewn modd ehangach a chael proses deg ac agored er mwyn derbyn cynigion a dethol y lleoliadau i gymryd rhan.

²⁴ [The Child Minding and Day Care Exceptions \(Wales\) Order 2010](#)

²⁵ [The First Claim ... a framework for playwork quality assessment](#)

3.3 Modelau cyllido

Cynigiwyd dau fodel cyllido:

Model cyllido 1: ar gyfer clybiau gwyliau a chlybiau gweithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol sy'n cael eu cynnal am fwy na 2 awr:

- £4 yr awr am bob plentyn
- Hyd at 5 diwrnod yr wythnos ar y mwyaf dros gyfnod gwyliau 6 wythnos
- Uchafswm o £6,000 (sy'n cyfateb i 83 o leoedd am sesiwn 9 awr dros gyfnod gwyliau o 30 diwrnod).

Model cyllido 2: ar gyfer lleoliadau chwarae mynediad agored (peripatetig):

- £42 yr awr
- Hyd at 5 diwrnod yr wythnos ar y mwyaf dros gyfnod gwyliau 6 wythnos
- Uchafswm o £5,000
- Y nifer lleiaf o blant a ddisgwylir ar gyfer sesiwn 2 awr (1 awr a 59 munud) y dydd yw 20 (neu pro rata, e.e. 10 plentyn y dydd ar gyfer sesiwn 4 awr).

Cafodd y cyllid ei ddosbarthu i'r Awdurdodau Lleol yr oedd y lleoliadau wedi'u lleoli ynddynt drwy Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan. Roedd yr Awdurdod Lleol wedi darparu cyllid ymlaen llaw i'r lleoliad, a chafodd hwnnw ei ad-dalu gan Lywodraeth Cymru yn dilyn y cynllun peilot. Cafodd cyllid ei ddarparu ymlaen llaw i Clybiau Plant Cymru. Byddai angen dyraniad grant ar wahâ ar gyfer unrhyw gyllid yn y dyfodol.

4 Canfyddiadau'r ymchwil

Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad. Yn eu tro, rydym yn ystyried:

- Yr allbynnau a gyflawnwyd (Adran 4.1)
- Yr allbynnau yr adroddwyd amdanynt (Adran 4.2)
- Safbwyntiau rhanddeiliaid am yr hyn a weithiodd yn dda ac na weithiodd yn dda (Adran 4.3)
- Canfyddiadau gwaith ymchwil mewn perthynas â mentrau tebyg eraill (Adran 4.4).

4.1 Y ddarpariaeth

Mae Tabl 1 yn crynhoi mewnbynnau'r peilot a'r prif allbynnau. Dangosir i £98,000 o gyllid gael ei ddosbarthu, allan o'r £100k o gyllid a neilltuwyd, ar draws 16 o Awdurdodau Lleol. Cafodd y cyllid ei ddosbarthu naill ai i ddarpariaeth chwarae mynediad agored neu i ddarpariaeth gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol.

O'r £100k a oedd ar gael; cafodd £31k o gyllid ei ddyrannu i ddarpariaeth gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol, £67k o gyllid ei ddyrannu i ddarpariaeth chwarae mynediad agored. Cafodd y cyllid ei ddosbarthu i'r lleoliadau chwarae drwy'r Awdurdod Lleol (£73k), Clybiau Plant Cymru neu'r Mentrau Iaith (cyfanswm cyfun o £26k).

Cafodd y ddarpariaeth ei chyd-drefnu gan 48 o leoliadau neu sefydliadau; a chan fod gan rai ohonynt nifer o safleoedd, cyrhaeddwyd 98 o safleoedd. Roedd bron 100 o safleoedd wedi'u cynnwys yn y cynllun peilot:

- Roedd 92 o safleoedd chwarae mynediad agored mewn ardaloedd a oedd mewn perygl o lwgu wedi defnyddio'r cyllid i gynyddu'r ddarpariaeth bwyd neu nifer y diwrnodau yr oedd y lleoliadau ar agor, ac roedd y cyllid sylfaenol ar gyfer y ddarpariaeth eisoes wedi'i drefnu.
- Roedd 6 o'r lleoliadau y tu allan i oriau'r ysgol yn defnyddio'r cyllid i ariannu lleoedd ar gyfer plant mewn perygl o lwgu yn ystod y gwyliau.

Roedd 3,650 o blant wedi cymryd rhan yn y cynllun dros wyliau'r haf, a 450 o blant dros hanner tymor. Nid yw'n bosibl pennu o'r data a oedd rhai o'r un plant wedi mynychu'r lleoliadau dros wyliau'r Haf a gwyliau hanner tymor, felly ni ellir cyfrifo cyfanswm nifer y plant a oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun.

Oherwydd bod darpariaeth gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol yn wahanol i ddarpariaeth chwarae mynediad agored, mae cost y sesiwn yn amrywio. Ar gyfer lleoliadau mynediad agored, roedd bwyd neu ddiwrnodau'n cael eu hychwanegu at ddarpariaeth a oedd eisoes yn cael ei hariannu am gost gyfartalog o £5 y sesiwn. Y gost gyfartalog ar gyfer sesiwn gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol lle ariannwyd lleoedd i blant ar gyfer y diwrnod oedd £36.

Tabl 1: Amcangyfrif o'r hyn a ddarparwyd gan y peilot i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau, 2019

		Haf	Hydref	Cyfanswm
Awdurdodau Lleol	Nifer	13	12	16
Cyllid	£000au	85	13	98
Y tu allan i oriau ysgol	£000au	27	4	31
Mynediad agored	£000au	58	9	67
I ALI	£000au	64	8	73
I eraill ¹	£000au	21	5	26
Safleoedd	Nifer	97	33	98
Y tu allan i oriau ysgol	Nifer	6	3	6
Mynediad agored	Nifer	91	30	92
Lleoedd a ddyrannwyd ²	Nifer	10,712	578	11,290
Y tu allan i oriau ysgol	Nifer	731	114	845
Mynediad agored	Nifer	9,981	464	10,445
Cyllid fesul lle	£	-	-	-
Y tu allan i oriau ysgol	£	-	-	36.00
Mynediad agored	£	-	-	5.00
Plant ³	Nifer	3,626	434	-
Y tu allan i oriau ysgol	Nifer	80	24	-
Mynediad agored	Nifer	3,546	410	-
Prydau ⁴	Nifer	12,441	738	13,180
Y tu allan i oriau ysgol	Nifer	1,462	228	1,690
Mynediad agored	Nifer	10,979	510	11,490

1 Cyllid a ddosbarthwyd gan y Mentrau Iaith a Clybiau Plant Cymru


2 Gwnaed rhai amcangyfrifon yn sgil colli ffurflenni monitro, er mae'n debygol bod yr amcangyfrifon yn rhy isel o hyd ar gyfer nifer y lleoedd

3 Gwnaed rhai amcangyfrifon yn sgil colli ffurflenni monitro, er mae'n debygol bod yr amcangyfrifon yn rhy isel o hyd ar gyfer nifer y plant a gymerodd ran. Nid yw'n bosibl canfod a oedd yr un plant wedi cymryd rhan ym mheilot Hydref a'r rheini a gymerodd ran yn nghynllun peilot yr Haf. Felly, nid yw'n bosibl amcangyfrif cyfanswm nifer y plant ar draws cynlluniau'r ddau gyfnod o wyliau.

Cyflwynir data cyfle cyfartal yn Ffigur 2. Dengys gwybodaeth fonitro a ddarparwyd gan y lleoliadau, o'r holl blant a oedd yn cymryd rhan:

- y rhaniad rhwng dynion a merched oedd 50/50
- roedd 16% yn iau na 4 oed, 29% yn 4-7 oed, 37% yn 8-11 oed a 18% yn 12 oed ac yn hŷn
- roedd gan tua 5% o blant anabledd neu anghenion penodol. Roedd pob un ac eithrio 2 o'r lleoliadau wedi adrodd y gallent gynnwys pawb.

Ffigur 2: Priodoleddau'r plant a gymerodd ran



5% ag anableddau neu anghenion penodol

Ffynhonnell: Data Monitro Lleoliadau

Modelau'r ddarpariaeth bwyd

Dim ond hanner nifer y lleoliadau oedd eisoes yn darparu bwyd cyn y cynllun peilot. Roedd yr hanner arall wedi cyflwyno darpariaeth bwyd o gael cyllid o dan y cynllun peilot. Felly, roedd 45 o safleoedd wedi elwa ar allu cynnig bwyd drwy'r cynllun peilot.

O'r holl lleoliadau a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun peilot, dim ond dau ohonynt oedd yn darparu byrbrydau heb brydau, roedd y gweddill ohonynt yn darparu prydau llawn.

Roedd y cyllid wedi caniatáu'r canlynol:

- Roedd 50% o'r lleoliadau'n darparu bwyd nad oeddent wedi gallu ei wneud yn flaenorol
- Roedd 8% o'r lleoliadau wedi cynyddu eu darpariaeth bwyd drwy gynnwys prydau neu fyrbrydau ychwanegol
- Roedd 13% o'r lleoliadau wedi gwella ansawdd y bwyd yr oeddent yn ei ddarparu. Roedd un lleoliad wedi nodi bod eu bwyd yn deillio o elusennau a

banciau bwyd cyn y cynllun peilot a bod darparu pryd iach a maethlon yn her iddynt gan nad oeddent bob amser yn gallu dewis eu cynhyrchion

- Roedd 5% o'r lleoliadu wedi cynyddu nifer y diwrnodau yr oeddent yn gallu agor eu drysau, ac felly roeddent yn gallu darparu bwyd ar ddiwrnodau ychwanegol
- Roedd 3% o'r lleoliadau wedi defnyddio'r cyllid i brynu offer fel blychau oeri bwyd, cyllyll a ffyrc etc. gan nad oedd ganddynt y cyfleusterau i ddarparu bwyd.

Roedd yr ymatebion i'r cwestiynau ar y lleoliadau a dderbyniwyd gennym yn dangos bod y clybiau y tu allan i oriau ysgol a oedd yn cymryd rhan yn y peilot yn cael eu hariannu ar gyfer lleoedd i blant. Roedd bwyd eisoes yn cael ei ddarparu yn y lleoliadau hynny.

Roedd tua 10% o'r lleoliadau'n caniatáu i blant fynd â bwyd adref i helpu eu teuluoedd. Gan fanteisio ar wybodaeth leol, roeddent weithiau'n gallu gwneud yn siŵr bod unrhyw fwyd dros ben yn mynd at y bobl hynny oedd ei angen fwyaf.

Gweithgareddau i rieni neu i'r teulu

Roedd tua 40% o'r lleoliadau'n cynnig gweithgareddau i rieni neu i'r teulu. Roedd y rhan fwyaf o'r rheini'n caniatáu i rieni ymuno â'r cyfleoedd oedd ar gael i chwarae fel y gallai teuluoedd chwarae gyda'i gilydd. Roedd rhai o'r lleoliadau'n darparu bwyd i'r rhieni hefyd adeg bwyd, er mwyn caniatáu i deuluoedd fwyta gyda'i gilydd a rhoi cynnig ar fwyd newydd gyda'i gilydd.

Roedd rhai o'r lleoliadau chwarae mynediad agored wedi nodi bod rhieni'n aros gyda phlant a oedd yn iau na 5 oed, ac yn chwarae gyda nhw, neu yn cymdeithasu â rhieni eraill. Roedd un lleoliad wedi nodi yn eu sylwadau bod cynnwys y rhieni yn rhoi cyfle iddynt gyfarfod â rhieni eraill, a thrwy gymdeithasu roeddent yn datblygu rhwydwaith o gymorth.

Roedd pum lleoliad yn cynnal digwyddiadau i'r teulu ar Ddiwrnod Chwarae Cenedlaethol ar 7 Awst. Roedd un lleoliad yn cynnwys y rhieni a brodyr a chwiorydd iau ar eu gwibdeithiau.

O'r lleoliadau hynny nad oedd yn cynnal gweithgareddau i rieni neu i'r teulu, roedd un ohonynt wedi nodi bod rhai rhieni'n cymryd rhan weithiau beth bynnag, ac un arall wedi nodi bod hynny'n rhywbeth yr hoffent ei wneud pe byddai'r adnoddau ychwanegol ganddynt.


4.2 Canlyniadau'r Cynllun Peilot

Yn yr adran hon, rydym yn nodi'r canlyniadau yr adroddwyd amdanynt yn erbyn y nodau a amlinellir yn fframwaith y gwerthusiad o'r cynllun peilot.

Bwyd

Yn gyffredinol, roedd 91% o'r plant a'r bobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg wedi dweud iddynt fwyta'r bwyd a ddarparwyd ar eu cyfer (gweler Ffigur 3 isod). O'r rheini, roedd 97% o'r plant a'r bobl ifanc a gwblhaodd yr arolwg wedi dweud eu bod yn hoffi'r bwyd a ddarparwyd iddynt; roedd 79% wedi dweud bod y bwyd yn "dda" a 18% wedi dweud ei fod yn "iawn".

Ffigur 3: Bwyta bwyd a rhoi cynnig ar fwyd a diod newydd



Ffynhonnell: Arolwg Plant a Phobl Ifanc N=753


Roedd y rhieni hynny a gwblhaodd yr arolwg hefyd yn gwerthfawrogi'r bwyd. Roedd y mwyafrif o'r rhieni wedi nodi bod y bwyd yn "*rhagorol*" (40% o'r rhieni) neu yn "*iawn*" (13%).

Pan ofynnwyd yn yr arolwg am yr hyn yr oedd y plant a'r bobl ifanc yn ei hoffi ynghylch y clwb neu'r cynllun yr oeddent wedi mynd iddo, roedd nifer ohonynt wedi sôn am y bwyd a'u profiad o baratoi byrbrydau neu brydau. Ymddengys fod gwneud smwddi a pizza, a chreu cebabs ffrwythau, yn boblogaidd iawn.

Lleihau achosion o lwgu yn ystod y gwyliau

Roedd nifer mawr o'r plant a'r bobl ifanc wedi sôn am y "bwyd" wrth roi gwybod yn yr arolwg am yr hyn yr oeddent yn hoffi'r mwyaf am y cynllun neu'r clwb gwyliau yr oeddent yn mynd iddo.

Ffigur 4: A oeddech chi'n teimlo'n llai llwglyd o'u cymharu â'r diwrnodau pan oeddech chi gartref?



Ffynhonnell: Arolwg Plant a Phobl Ifanc N=753

O'r rheini a gwblhaodd yr arolwg, roedd 43% wedi dweud eu bod yn llai llwglyd ar y diwrnodau pan oeddent yn mynd i'r clwb neu'r cynllun gwyliau nac oeddent ar ddiwrnodau pan oeddent gartref.

Bwyta'n iachach

Roedd y lleoliadau'n darparu amrywiaeth o fyrbrydau neu brydau iach. O'r rheini a gwblhaodd yr arolwg, roedd 94% wedi dweud iddynt fwyta'r bwyd a ddarparwyd iddynt, a 56% wedi nodi iddynt fwyta rhywbeth nad oeddent wedi rhoi cynnig arno o'r blaen.

Dim ond 23% o'r plant a'r bobl ifanc a ddywedodd eu bod yn bwyta mwy o ffrwythau a llysiau ar y diwrnodau yr oeddent gartref, yn hytrach nag ar y diwrnodau yr oeddent yn mynd i'r clwb neu'r cynllun gwyliau. Roedd nifer o blant wedi rhoi gwybod yn ddigymell nad oeddent yn hoffi'r bwyd a oedd yn cael ei gynnig, ac weithiau roeddent yn nodi'n benodol mai'r rheswm am hynny oedd bod y bwyd yn "rhy iach". Roedd rhai o'r plant a'r bobl ifanc hefyd wedi enwi eitemau penodol o fwyd nad oeddent yn eu hoffi, e.e. "*moron*", "*cyw iâr*" a "*bananas*". Gallai hynny egluro pam yr oedd rhai plant wedi bwyta llai o ffrwythau a llysiau yn y clwb neu'r cynllun gwyliau, a pham roedd lleiafrif wedi nodi eu bod yn bwyta llai o ffrwythau a llysiau yn y clwb neu'r cynllun gwyliau nag oeddent ar y diwrnodau pan oeddent gartref.


Roedd y mwyafrif o'r rhieni a gwblhaodd yr arolwg mewn lleoliadau yr oeddent wedi cymryd rhan mewn prydau i'r teulu wedi nodi iddynt fwyta'n iachach yn y clwb neu'r cynllun gwyliau (54%).

Roedd y mwyafrif o'r plant a ymatebodd i'r arolwg wedi dweud iddynt yfed llai o ddiodydd siwgrog a ffisiog yn y clwb neu'r cynllun gwyliau yr oeddent yn mynd iddo; dim ond 10% a ddywedodd iddynt yfed mwy ohonynt. Fodd bynnag, roedd nifer hefyd wedi nodi'n ddigymell mai'r peth gorau am fynd i'r clwb neu'r cynllun gwyliau oedd eu bod yn hoffi bwyta "losin". Nid yw'n glir o ran sut cawsant hyd iddynt. Ond, mae'n debyg bod rhai o'r gweithgareddau wedi cynnwys cynnig losing, e.e. tostio malws melys ar y tân, ac mae'n bosibl y gallai fod siop fwyd ar gael, oherwydd i rai plant sôn am siop fwyd yn eu hadborth. Caiff canllawiau ar fwyta'n iach eu trafod yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Llai o bwysau ariannol ar rieni

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod 37% o'r rhieni wedi nodi bod y ddarpariaeth wedi helpu i leihau costau dros wyliau'r haf. Roedd 36% ohonynt wedi nodi'n benodol bod y ddarpariaeth wedi helpu o ran costau bwyd (gweler Ffigur 5 isod). Wrth ymateb i'r arolwg roedd nifer o rieni wedi ychwanegu eu bod yn gwerthfawrogi bod y clwb neu'r cynllun gwyliau a'r bwyd wedi cael eu darparu am ddim. Yn ogystal, roedd nifer o rieni wedi ymhelaethu ar hynny gan ddweud bod cyfnod y gwyliau'n adeg ddrud ac yn anodd ei fforddio.

Ffigur 5: Buddion y Clwb neu'r Cynllun Gwyliau i Rieni



Ffynhonnell: Arolwg Rhieni N=346


O'r rhieni hynny a gwblhaodd yr arolwg, roedd 47% ohonynt wedi dweud iddynt elwa ar allu cael hoe ac amser i'w hunain. Roedd nifer bach o'r rhieni wedi sôn yn ddigymell yn eu hymateb i'r arolwg iddynt werthfawrogi cael "hoe" o goginio i'w teulu, neu o gael bwyd wedi'i ddarparu ar eu cyfer. Roedd un rhiant wedi dweud bod cael cinio picnic gyda'i gilydd yn rhywbeth mor braf i'w wneud, ac nad oedd yn gallu cofio cael picnic wedi'i baratoi iddi erioed.

Cyfleoedd gwyh i chwarae, profiadau mwy cadarnhaol

Yn gyffredinol, roedd 99% o'r plant a'r bobl ifanc a gwblhaodd yr arolwg wedi dweud bod y clwb, grŵp neu'r cynllun yr oeddent wedi mynd iddo yn "dda" (93%) neu yn "iawn" (6%).

Roedd un plentyn wedi egluro'n ddigymell ei fod yn mwynhau'r cynllun gwyliau yr oedd yn mynd iddo gan ei fod yn cynnig lle neis i fynd iddo i gael i ffwrdd o'r ffraeo. Roedd rhieni eraill wedi rhoi gwybod bod y cynllun yn wasanaeth hanfodol i deuluoedd. Ac roedd un rhiant wedi egluro bod y cynllun peilot wedi bod yn *"hanfodol i lesiant teuluoedd yn yr ardal"*.

Ffigur 6: Buddion y Cynllun neu'r Clwb Gwyliau i Blant a nodwyd gan Rieni




Ffynhonnell: Arolwg Rhieni N=346

Roedd rhieni hefyd yn cydnabod y profiad cadarnhaol yr oedd y clwb neu'r cynllun gwyliau wedi'i roi i'w plant. Roedd bron hanner nifer y rhieni a gwblhaodd yr arolwg (46%) wedi adrodd bod eu plant wedi elwa ar fod yn hapusach o ganlyniad i'r ddarpariaeth. Roedd dros chwarter ohonynt (27%) wedi priodoli ymddygiad gwell eu plant i'r ddarpariaeth. Dangosir y canfyddiadau hyn yn y graff uchod (Ffigur 6).

Cymdeithasu

Roedd nifer o'r plant a'r bobl ifanc wedi rhoi gwybod yn ddigymell iddynt fwynhau'r ddarpariaeth gan iddi roi cyfle iddynt weld eu ffrindiau a chwarae gyda nhw, yn ogystal â chyfarfod â phobl newydd a gwneud ffrindiau newydd. Pan ofynnwyd iddynt yn uniongyrchol, dywedodd 96% o'r plant a'r bobl ifanc a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi treulio amser gyda'u ffrindiau, a dywedodd 86% eu bod wedi cyfarfod â phobl newydd, yn y clwb neu'r cynllun gwyliau (gweler Ffigur 7 isod).

Ffigur 7: Treulio amser gyda ffrindiau a chyfarfod â phobl newydd



Ffynhonnell: Arolwg Plant a Phobl Ifanc N=752

Roedd rhieni hefyd yn cydnabod bod y ddarpariaeth gofal plant y tu allan i oriau ysgol neu'r clwb neu'r cynllun gwyliau yn fuddiol gan eu bod yn cynnig cyfle i blant gymdeithasu (nodwyd hynny gan 65% o'r rhieni a gwblhaodd yr arolwg). Roedd nifer bach o rieni wedi rhoi gwybod y byddai eu plenty wedi bod yn “*unig*” oni bai am y ddarpariaeth.

Roedd nifer bach o'r ymatebion i'r arolwg a gafwyd gan blant a phobl ifanc wedi sôn am brofiad negyddol a oedd yn ymwneud â phlant eraill yn y lleoliad, e.e. roedd un plentyn wedi dweud nad oedd yn hoffi gweld plant eraill yn “*ymddwyn yn angharedig*”. Roedd nifer bach o'r rhieni hefyd wedi sôn bod ymddygiad “*gwrthgymdeithasol*” ac “*ymddygiad gwael*” rhai o'r plant yn y lleoliadau yn broblem, ond fel y nodir uchod, cafwyd cydnabyddiaeth ar y llaw arall gan fwy na chwarter nifer y rhieni a oedd wedi ymateb i'r arolwg fod y ddarpariaeth wedi gwella ymddygiad eu plant. Mae'n debygol y byddai rhai lleoliadau yn darparu gwasanaethau i blant ag ymddygiad heriol ac â phroblemau cymhlethau eraill. Felly, am y rheswm hwnnw, nid yw'r canfyddiad hwnnw'n annisgwyl.

Bod yn egnïol

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr wedi dweud eu bod yn fwy o weithgareddau egnïol ar y diwrnodau yr oeddent yn mynd i'r clwb neu'r cynllun gwyliau; dim ond 14% a ddywedodd eu bod yn gwneud mwy o weithgareddau egnïol ar y diwrnodau pan oeddent gartref.

Roedd mwyafrif o'r rhieni wedi nodi bod eu plant wedi cael budd o fod yn fwy egnïol o ganlyniad i fynd i'r cwlb neu'r cynllun gwyliau. (73%).

Fel y nodir uchod, roedd y gweithgareddau chwaraeon yn boblogaidd iawn, ac yn aml y rheini oedd y gweithgareddau yr oedd plant a phobl ifanc yn dweud eu bod wedi mwynhau'r fwyaf am y ddarpariaeth yr oeddent yn rhan ohoni. Roedd ymatebion arolygon y rhieni yn aml yn nodi mai'r gweithgareddau chwaraeon oedd y rhai yr oedd eu plant yn eu hoffi fwyaf am y clwb neu'r cynllun gwyliau yr oeddent yn fynd iddo.

Cael hwyl / teimlo'n hapus

Mewn ymateb i'r cwestiwn yn yr arolwg am yr hyn yr oedd y plant a'r bobl ifanc yn ei hoffi fwyaf am y ddarpariaeth, roedd llawer ohonynt wedi dweud ei bod yn "*hwyl*". Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni wedi dweud yn eu hymatebion nhw i'r arolwg fod eu plentyn neu eu plant wedi cael hwyl (84%).

Roedd mwynhau'r gweithgareddau celf a chrefft, yn ogystal â gweithgareddau chwaraeon penodol, e.e. roedd nofio, pêl-droed a saethu targed, yn aml yn cael eu crybwyll mewn ymatebion i'r arolwg. Roedd llawer iawn o'r plant wedi dweud eu bod am ddod yn ôl eto, a'u bod yn trueni bod y gwyliau'n dod i ben ac na fyddent yn gallu parhau i gymryd rhan. Roedd hynny'n dangos yn glir eu bod yn hapus yn clwb neu'r cynllun gwyliau.

Dysgu rhywbeth newydd

O'r rheini a gwblhaodd yr arolwg, roedd 74% o'r plant a'r bobl ifanc wedi dweud iddynt roi cynnig ar rywbeth newydd, a 68% o'r rhieni wedi cydnabod bod hwnnw'n un o fuddion mynychu'r lleoliad. Mewn ymateb i'r cwestiwn yn yr arolwg ynghylch beth yr oedd y plant a'r bobl ifanc yn ei hoffi fwyaf am y ddarpariaeth, roedd nifer ohonynt wedi sôn am yr amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd chwarae a oedd ar gael iddynt. Roedd y rhieni hefyd wedi cydnabod bod yr amrywiaeth honno'n fuddiol i'w plant.

4.3 Barn am y broses

A oedd arweinwyr y lleoliadau o'r farn eu bod wedi helpu i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau?

Roedd arweinwyr yr holl lleoliadau a gymerodd ran yn y cynllun peilot wedi adrodd eu bod o'r farn bod eu cynllun wedi helpu i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau. Roedd 60% wedi ychwanegu bod rhai o'r plant a gymerodd ran yn eu lleoliad wedi dangos arwyddion eu bod yn llwgu.

Roedd rhai o'r lleoliadau wedi nodi i'r plant ddweud nad oeddent wedi cael brecwast cyn mynd i'r sesiwn, ac felly roedd cael bwyd yno wedi'u helpu'n ddirfawr. Roedd eraill yn ymwybodol o'r plant a oedd yn cymryd a fyddai fel arfer yn cael prydau ysgol am ddim, ac felly gwyddent fod cael bwyd yno'n helpu'r teulu. Roedd rhai o'r lleoliadau chwarae mynediad agored wedi adrodd bod nifer y plant a'r bobl ifanc a oedd yn mynychu wedi cynyddu ar sail argymhellion y rheini a oedd yn cymryd rhan ynghylch y bwyd a ddarparwyd. Roedd rhai lleoliadau wedi adrodd bod plant yn dod â bagiau er mwyn gallu mynd â bwyd dros ben adref, gan fod ei angen arnynt. Roedd rhai wedi sylwi ar wahaniaeth yn egni'r plant a'u gallu i ganolbwyntio ar ôl cael bwyd. Roedd 20% o'r lleoliadau hefyd wedi nodi eu bod o'r farn eu bod wedi lleihau'r pwysau ariannol ar rieni drwy ddarparu bwyd.

Yn ogystal â mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau, roedd y lleoliadau wedi sylwi ar fuddion eraill:

- Roedd 45% wedi adrodd iddynt weld tystiolaeth o fwyta'n iachach yn y lleoliad – hynny yw, naill ai safbwynt oedolion am ddeiet y plentyn, neu fod y plant wedi nodi eu bod yn bwyta mwy o ffrwythau a llysiau, ac roedd rhai plant wedi ddweud nad oedd ffrwythau'n rhywbeth y gallai eu teulu eu fforddio i'w rhoi iddynt fel arfer.
- Roedd cynnwys y plant wrth baratoi'r bwyd (er enghraifft drwy lenwi tortillas â chig, caws a llysiau) a chael trafodaethau am ddewisiadau bwyd a diod wrth baratoi bwyd a'i fwyta, wedi gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth plant am fwyta'n iach.
- Roedd y rhan fwyaf o'r lleoliadau wedi sicrhau bod dŵr yfed ar gael hefyd (roedd rhai ohonynt wedi defnyddio'r cyllid i brynu poteli o ddŵr y gellid eu defnyddio eto), ac roeddent wedi gweld cynnydd yn y maint o ddŵr a yfwyd o ganlyniad i hynny. Gan fod dŵr ar gael, roedd y plant yn llai tebygol o ddod â diodydd ysgafn gyda nhw i'r lleoliad.
- Roedd cymdeithasu a bwyta gyda'i gilydd yn fuddiol i'r plant a'r teuluoedd hefyd. Roedd wedi helpu'r plant i roi cynnig ar fwydydd newydd a bod yn ymwybyddol o adegau bwyd, fel eu bod yn bwyta llai o fyrbrydau.
- I'r clybiau y tu allan i oriau ysgol, roedd y cymorth ariannol ar gyfer y lleoedd wedi golygu bod y cynllun peilot yn cefnogi cynaliadwyedd y lleoliad. I'r

lleoliadau chwarae mynediad agored, roedd y ffaith bod bwyd ar gael wedi denu plant a theuluoedd newydd a oedd hefyd wedi cael budd o'r gweithgareddau chwarae.

- Roedd y lleoliadau wedi nodi bod darparu bwyd yn y lleoliadau chwarae mynediad agored wedi gwella profiad y plant yn y lleoliad.

Beth aeth yn dda?

Fel y disgrifir uchod, roedd y lleoliadau o'r farn eu bod nid yn unig wedi helpu i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau, ond eu bod hefyd yn cynnig buddion ychwanegol i blant a'u teuluoedd. Cafodd gweithio'n dda mewn partneriaeth ei nodi, gan gynnwys meithrin cysylltiadau gwell neu newydd â'r Awdurdod Lleol drwy'r cynllun peilot.

Roedd y rhan fwyaf o'r lleoliadau wedi nodi bod y cynllun peilot wedi cael croeso mawr, ac iddo wneud cyfraniad pwysig at y gymuned. Mae'r sylwadau canlynol yn adlewyrchu'r hyn a ddywedwyd gan y rheini a gymerodd ran:

- *Cynllun peilot gwych a lwyddodd i ddod ag amrywiaeth eang o aelodau o'r gymuned ynghyd. Darparwyd ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaethau ac ar gyfer gofynion deietegol amrywiol. Mae nifer o rieni wedi dweud na fydden nhw wedi gallu ymdopi drwy wyliau'r haf oni bai am y cynllun peilot.*
- *Cynllun peilot ffantastig, ac roedd y gymuned wedi cael budd mawr ohono dros yr haf. Roedd hi'n ddiddorol i weld bod llawer mwy o fechgyn na marchod yn ymddangos eu bod yn llwglyd.*
- *Roedd y rhieni wedi trafod pa mor dda yr oedd i weld eu plant yn yfed dŵr (roedd rhai rhieni wedi synnu y byddai eu plentyn yn yfed dŵr), a'u bod wedi rhoi cynnig ar fwydydd nad oedden nhw wedi'u cael gartref, neu wedi'u gwrthod gartref. Gwelwyd hynny o'r blaen, ac mae'n debyg mai pwysau cadarnhaol gan gyfoedion yw'r prif reswm – os yw eu ffrindiau'n ei fwyta, yna fe wnân nhw roi cynnig arno hefyd.*
- *Mae'r prosiect hwn wedi caniatáu inni ddarparu bwydydd na fyddai rhai plant a'u teuluoedd yn eu bwyta fel arfer, fel melon, llus duon bach, pasta pesto, puprynnau melys, gwahanol fathau o gaws etc. – bwydydd sy'n fuddiol iawn i iechyd.*
- *Roedd y cynllun yn gyfle gwych ac roedd y bobl ifanc wedi elwa'n fawr arno – roedd un person ifanc wedi manteisio i'r eithaf ar y cyfle ac wedi dysgu sut i goginio tra oedd yn rhan o'r cynllun. Roedd y sgiliau coginio hynny o fudd i'w deulu hefyd. Roedd hwnnw'n gyfle gwych.*
- *Rwy'n gobeithio y gwnewch chi ddatblygu'r cynllun gwych hwn. Mae'n hanfodol mewn ardaloedd fel ein hardal ni.*
- *Roedd plant a phobl ifanc newydd, na fydden ni'n eu gweld fel arfer mewn cynlluniau chwarae, yn mynychu'r cynllun peilot yn rheolaidd. Ambell waith,*

byddai rhai o'r plant hŷn a'r bobl ifanc yn cael eu cinio, yn aros am ychydig ac wedyn yn mynd i'r parc lleol neu i'r ganolfan hamdden i nofio am ddim.

- *Roedd un plentyn wedi rhoi gwybod inni i'w fam ddweud wrtho i lenwi ei fag â ffrwythau gan fod ei chwaer fach yn dwlu ar ffrwythau.*
- *Am swm cymharol fach o arian, mae'r cynllun hwn wedi gwneud gwahaniaeth mawr, gan ychwanegu at y ddarpariaeth yn yr ardal, ynghyd â sicrhau bod dau ddiwrnod ychwanegol o ddarparu bwyd yn cael eu cynnig bob wythnos.*

Beth y gellid fod wedi'i wella?

Roedd bron hanner nifer y lleoliadau (40%) wedi dweud y byddai cael mwy o amser i baratoi cyn cynnal y cynllun wedi gwella'r prosiectau, yn enwedig o ran cael amser i gynllunio cael bwyd gan gyflenwyr, trefnu cydweithio â phartneriaid, hysbysebu a thargedu'r teuluoedd iawn. Roedd rhai o'r lleoliadau wedi cynnal cynllun dros yr haf ac yn ystod hanner tymor, ac roedd y rheini wedi nodi'r gwahaniaeth o ran cael amser i gynllunio a'r buddion a welwyd yn sgil hynny.

Er i rai nodi iddynt gydweithio'n dda â phartneriaid, roedd eraill wedi nodi y gallai hynny fod wedi bod yn well er mwyn cynnig prosiect gwell a chael canlyniadau gwell. Roedd rhai o'r lleoliadau o'r farn y gallai'r cynllun peilot fod wedi elwa ar dargedu'n well y teuluoedd hynny mewn angen drwy ysgoion a gweithwyr proffesiynol eraill. Roedd rhai o'r lleoliadau wedi dweud y gallent fod wedi cynnwys mwy o blant pe byddent wedi cael mwy amser i baratoi cyn i'r cynllun ddechrau.

Roedd pedwar o'r lleoliadau wedi dweud y byddai wedi bod yn fuddiol cael mwy o staff, oherwydd roedd y ffaith bod bwyd yn cael ei ddarparu wedi denu mwy o blant i'w lleoliadau.

Roedd y materion canlynol yn cael eu codi'n aml gan ddarparwyr mewn ymateb i'r cwestiwn yn yr arolwg ynghylch sut y gellid gwella'r cynllun peilot:

- *Pe byddem wedi cael gwybod am y cyllid yn gynt, byddem wedi gallu cynllunio'r prydau'n well a sicrhau bod rhieni a theuluoedd yn fwy ymwybodol o'r ffaith bod bwyd ar gael.*
- *Pe byddem wedi cael cyfle i gydweithio'n agosach â'r ysgolion i gael rhestr o'r plant i'w targedu, byddem wedi gallu helpu mwy o bobl mewn perygl o beidio â chael digon o fwyd dros wyliau'r haf. Ond yn anffodus, nid oedd hynny'n bosibl oherwydd yr amserlen dynn.*
- *Roedd y cynllun chwarae'n fwy prysur oherwydd bod y cynllun peilot ar lwgu yn ystod y gwyliau'n cael ei gynnal. Felly, efallai y bydd angen mwy o staff arnom ar gyfer unrhyw gynlluniau chwarae yn y dyfodol.*
- *Mwy o gyllid i allu cynnig y cyfle hwn i fwy o blant.*
- *Mwy o gyllid i allu cynnig gweithgareddau gwell.*

Roedd rhai o'r lleoliadau (15%) wedi dweud y gallent fod wedi ehangu eu darpariaeth pe byddai mwy o gyllid ar gael.

Rhoddwyd sylwadau ar y broses werthuso yn adran 2.

4.4 Cymharu'r cynllun peilot â mentrau eraill sy'n ymwneud â llwgu yn ystod y gwyliau

Mae Tabl 2 yn cymharu'r prif gynlluniau ar gyfer llwgu yn ystod y gwyliau sy'n dilyn dull gwaith chwarae a nodir yn Adran 2.2. Mae'n bwysig nodi bod gan y cynlluniau nodau gwahanol, ac y bydd hynny'n cael eu hadlewyrchu yn y canlyniadau a'r costau. Nid ydym yn eu cymharu er mwyn ceisio canfod y ffordd 'orau' o fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau, gan fod pob un o'r mentrau'n gwneud cyfraniad arwyddocaol. Nod cymharu'r mentrau yw helpu i ddeall y costau a'r canlyniadau cymharol sy'n sail i'r gwahanol ddulliau a nodau.

Tabl 2: Cymharu nodau, canlyniadau a chostau cynlluniau sy'n mynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau

	Cynllun gwaith chwarae 2019	Bwyd a Hwyl SHEP 2018 Gwerthusiad 2019 ar y gweill	'Fit and Fed' StreetGames 2019
Disgrifiad	Defnyddio lleoliadau a chynlluniau gwaith chwarae sydd eisoes yn bodoli i ddarparu bwyd	Rhaglen wedi'i seilio mewn ysgolion ac a gynhelir gan staff ysgolion a'u partneriaid	Sesiynau o chwaraeon a gweithgareddau, gan gynnwys darparu bwyd
Cyfnod	Haf Hanner tymor Hydref	Haf O leiaf 12 diwrnod	Haf
Nodau	Darparu bwyd iach i leihau achosion o lwgu yn ystod y gwyliau. Darparu cyfleoedd gwyb i chwarae, a phrofiadau mwy cadarnhaol	Prydau iach. Addysg bwyd a maeth. Gweithgareddau corfforol a sesiynau cyfoethogi ar gyfer plant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn ystod gwyliau'r ysgol	Darparu bwyd a gweithgareddau corfforol am ddim i bobl ifanc sy'n byw mewn cymunedau o amddifadedd mawr ledled Cymru
Cyfanswm y gyllideb	Cyfanswm o £100k £90k - Haf 2019 £10k – Hanner tymor Hydref	Cyllid Llywodraeth Cymru £500k - 2018 £800k - 2019 Arian cyfatebol ychwanegol gan awdurdodau lleol drwy adnoddau mewn nwyddau neu wasanaethau	Ni roddwd cyfanswm y gyllideb. Ni neilltuwyd cyllid penodol ar gyfer 'Fit and Fed'. Cyfuniad o gyllid craidd sefydliadau lleol yr ymddiriedir ynddynt, cyllid gan sefydliadau lleol a chyrff sy'n dyfarnu grantiau.
Awdurdodau Lleol	16	16	10
Lleoliadau	100	52	43
Nifer y plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran	O leiaf 3,650	2,300	2,838
Prydau a ddarparwyd	O leiaf 13,000		12,028
Cost y pen fesul sesiwn	£5 ar gyfer mynediad agored	£20.83 y plentyn fesul diwrnod	£9.36

	Cynllun gwaith chwarae 2019	Bwyd a Hwyl SHEP 2018 Gwerthusiad 2019 ar y gweill	'Fit and Fed' StreetGames 2019
	Defnyddiwyd cyllid i ychwanegu bwyd at ddarpariaeth am hyd at 2 awr sydd eisoes yn bodoli £36 ar gyfer gofal plant y tu allan i oriau ysgol am hyd at 10 awr Cyllid ar gyfer lleoedd i blant	Y boreau yn unig ar gyfer y rhan fwyaf o'r sesiynau Yn cynnwys cost sesiwn ynghyd â bwyd	Yn cynnwys cost sesiwn hyd at 5 awr a phryd o fwyd
Canlyniadau	Bwyd, iechyd a mynd i'r afael â llwgu		
Lleihau llwgu yn ystod y gwyliau	94% wedi bwyta'r bwyd 43% wedi teimlo'n llai llwglyd nag oeddent ar ddiwrnodau gartref 97% ohonynt wedi hoffi'r bwyd 60% o leoliadau wedi dweud iddynt weld arwyddion bod y plant yn llwglyd	Ar y diwrnodau yr oeddent yn mynychu cynllun SHEP: • 81% wedi bwyta brecwast, • 88% wedi bwyta cinio canol dydd, • 45% wedi teimlo'n llai llwglyd nag oeddent ar ddiwrnodau gartref, 48% heb deimlo'n llai llwglyd neu yn ansicr 76% wedi hoffi'r cinio 70% wedi hoffi'r brecwast	
Bwyta'n iachach	56% wedi rhoi cynnig ar fwydydd newydd 45% o leoliadau wedi gweld tystiolaeth o fwyta'n iachach 47% o blant a phobl ifanc wedi dweud iddynt fwyta mwy o ffrwythau a llysiau ar ddiwrnodau'r clwb, 28% wedi bwyta'r un faint o ffrwythau a llysiau ar ddiwrnodau'r clwb a	66% wedi rhoi cynnig ar fwydydd newydd am y tro cyntaf 79% wedi dysgu rhywbeth newydd am fwyd neu fwyta'n iach 50% wedi bwyta mwy o ffrwythau/llysiau ar ddiwrnodau SHEP; 19% wedi bwyta mwy o ffrwythau/llysiau ar ddiwrnodau nad oedd yn rhai SHEP	63% wedi rhoi cynnig ar fwydydd newydd

	Cynllun gwaith chwarae 2019	Bwyd a Hwyl SHEP 2018 Gwerthusiad 2019 ar y gweill	'Fit and Fed' StreetGames 2019
	gartref, a 54 % o'r rhieni wedi dweud i'w plant fwyta'n iachach yn y clwb	68% wedi bwyta mwy o fyrbrydau bras neu siwgrog gartref nag oeddent dan y cynllun; 10% wedi bwyta mwy ar ddiwrnodau cynllun SHEP.	
Llai o bwysau ariannol ar rieni	37% o'r rhieni wedi dweud bod y ddarpariaeth gwyliau wedi helpu i leihau costau dros wyliau'r ysgol; 36% o'r rhieni wedi dweud bod y ddarpariaeth wedi helpu i leihau costau bwyd	40% o'r rhieni wedi dweud bod y cynllun wedi'u helpu i ymdopi â gwaith, gwyliau neu ofal plant; 42% o'r rhieni wedi dweud bod y cynllun wedi'u helpu i dalu costau ariannol y gwyliau.	
Canlyniad	Cyfleoedd gwych i chwarae, mwy o brofiadau cadarnhaolo		
Plant yn cymdeithasu	96% wedi treulio amser gyda'u ffrindiau 86% wedi cyfarfod â phobl newydd	89% wedi treulio amser gyda'u ffrindiau 72% wedi gwneud ffrindiau newydd	94% wedi dweud iddynt fwynhau cyfarfod â'i gilydd 89% wedi gwneud ffrindiau newydd
Bod yn egnïol	57% wedi gwneud mwy o ymarfer corff	77% wedi mwynhau chwaraeon a bod yn egnïol 52% wedi dweud eu bod yn fwy egnïol ar ddiwrnodau cynllun SHEP nag oeddent gartref Pan nad oeddent yn cymryd rhan yn y cynllun, yn gyffredinol roedd 39% yn gwyllo'r teledu, yn chwarae ar gyfrifiadur, neu yn defnyddio llechen/ffôn bob dydd.	Roedd 91% yn fwy egnïol pan oeddent yn cymryd rhan mewn sesiynau 'Fit and Fed' (o'u cymharu â lefelau gweithgarwch arferol yn ystod gwyliau'r ysgol); Pan nad oeddent yn cymryd rhan yn y cynllun, roedd 39% wedi dweud y byddent yn gwyllo'r teledu neu'n chwarae ar ddyfeisiau, a byddai 18% yn gwneud dim, a 6% yn y gwely.

	Cynllun gwaith chwarae 2019	Bwyd a Hwyl SHEP 2018 Gwerthusiad 2019 ar y gweill	'Fit and Fed' StreetGames 2019
		34% o'r rhieni wedi dweud bod eu plant yn gyffredinol yn fwy iach; 86% o'r rhieni wedi dweud bod y cynllun wedi sicrhau bod eu plant yn egnïol	
Cael hwyl / teimlo'n hapus	99% wedi dweud bod y ddarpariaeth yn dda neu yn iawn	97% o'r rhieni wedi dweud bod eu plant wedi cael budd o gymryd rhan yng nghynllun SHEP	95% wedi nodi bod y sesiynau'n 'dda' neu'n 'wych'
Dysgu rhywbeth newydd	74% wedi rhoi cynnig ar weithgaredd newydd	79% wedi gwneud rhywbeth newydd yr hoffent wneud eto	82% wedi rhoi cynnig ar chwaraeon / gweithgareddau newydd; 68% wedi dysgu rhywbeth newydd

5. Casgliadau ac argymhellion

Yn yr adran hon rydym yn nodi'r casgliadau a'r argymhellion dangosol cyffredinol i'w hystyried o fewn cyfyngiadau'r gwerthusiad sydd wedi'u hamlinellu'n glir yn Dull y Gwerthuso (Adran 2) uchod. Bwriedir i'r casgliadau a'r argymhellion a gyflwynir yma gael eu defnyddio ochr yn ochr â thystiolaeth arall i bennu polisïau a phenderfyniadau ar wasanaethau a ddarperir yn y dyfodol.

5.1 Casgliadau cyffredinol

Mae'r cynllun yn rhoi cymorth ariannol i gynnig bwyd fel gwasanaeth ychwanegol, neu i wella neu estyn gwasanaeth sy'n rhan o ddarpariaeth gwaith chwarae a ariennir sydd eisoes yn bodoli ac ar gael am ddim i blant sydd mewn perygl o lwgu yn ystod y gwyliau. Ymddengys fod hynny'n ffordd gost-effeithiol o fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau. Mae'r cynllun hwnnw'n cyd-fynd â chynlluniau eraill sy'n cael eu gweithredu ac yn eu hategu.

Mae rhoi cyllid i ariannu lleoedd mewn darpariaeth y telir amdani (sef clybiau y tu allan i oriau'r ysgol fel arfer), yn ffordd ddrutach o fynd ati, ond gallai fod yn ffordd ddefnyddiol o fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau. Mae'n rhoi cyfle i blant nad ydynt fel arfer yn gallu mynd i'r lleoliadau hynny, fanteisio ar gael bwyd, addysg am fwyta'n iach a chyfleoedd gwyb i chwarae. Mae hefyd yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd darpariaeth y tu allan i oriau'r ysgol ac yn ystod y gwyliau.

Mae ychwanegu bwyd at ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli nad yw'n cynnwys bwyd fel arfer yn cynnig manteision ychwanegol, sy'n cynnwys bod plant yn gallu cymryd rhan wrth baratoi'r bwyd, mae'n addysgu plant am fwyta'n iach, gan annog arferion iach fel rhoi cynnig ar fwydydd newydd, ac eistedd i fwyta mewn amgylchedd cymdeithasol. Ac felly, mae hynny'n gwella'r ddarpariaeth yn gyffredinol.

Mae plant a phobl ifanc, a'u teuluoedd, yn aml yn mwynhau cymryd rhan wrth gynllunio prydau, paratoi a/neu goginio bwyd mewn clybiau neu gynlluniau gwyliau. Weithiau, mae'r mathau hynny o weithgareddau sy'n gysylltiedig â bwyd yn gallu bod yn gyfrwng defnyddiol i ddenu plant a'u teuluoedd i ddod i glybiau neu gynlluniau gwyliau na fyddent fel arall yn mynd iddynt.

5.2 Yr argymhellion i'w hystyried

Ar y cyfan, mae darparu bwyd i leoliadau gwaith chwarae wedi annog plant i bwyta'n iachach, er bod rhai enghreifftiau o weithgareddau sy'n gysylltiedig â bwyta bwyd nad yw'n iach, ac o blant yn adrodd eu bod yn bwyta losin a melysion' a brynwyd o 'siop fwyd'. Gellid gwneud mwy i annog bwyta'n iach drwy'r meini prawf cymhwysra, y canllawiau a'r hyfforddiant a roddir mewn perthynas â'r lleoliadau.

Er i'r cynllun peilot ystyried perygl llwgu yn ystod y gwyliau a gwybodaeth leol wrth ddethol lleoliadau, dylid ffurfioli'r dull a ddefnyddir i ddewis lleoliadau daearyddol ar gyfer unrhyw gyllid yn y dyfodol, gan ystyried data a gwybodaeth leol. Mae angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r ardaloedd hynny lle nad oes darpariaeth gwaith chwarae eisoes ar gael, a sut y gellid cynnwys yr ardaloedd hynny.

Os bydd cyllid ar gael yn y dyfodol ar gyfer cynllun gwaith chwarae i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau, dylid sicrhau proses deg ac agored i ddethol y lleoliadau a fydd yn cymryd rhan, nail ai drwy fformiwla, cynigion, neu gyfuniad o'r ddau beth.

Dylid ystyried y broses werthuso wrth roi cynllun ar waith yn y dyfodol er mwyn llywio ein dealltwriaeth o'r ffordd orau i fodloni nodau'r prosiect. Dylid hefyd adolygu'r ffordd yr eir ati i werthuso cynllun gan ystyried yr wybodaeth a gafwyd yn ystod y cynllun peilot.

Mae gan Gymru hanes cryf o gynnal cynlluniau peilot cadarn yn y cyd-destun hwn, e.e. brecwast am ddim mewn ysgolion²⁶. Dylai unrhyw waith cynllunio yn y dyfodol ystyried cyfleoedd i bennu'r hyn sy'n gweithio yn ddi-ddadl, gan gydnabod bod hynny'n debygol o amrywio yn ôl ardal a lleoliad gwahanol.

²⁶ [Evaluation of Primary School Free Breakfast Initiative](#)

Atodiad A: Dulliau Casglu Data

Mynd i'r Afael â Newyn Gwyliau - Cynlluniau Peilot Playworks		Llywodraeth Cymru, Polisi Chwarae
Holiadur Lleoliadau		Haf 2019
Mae'r holiadur hwn ar gyfer lleoliadau sy'n rhan o brosiect Newyn Gwyliau – Cynlluniau Peilot Playworks yn ystod gwyliau haf 2019. Mae gofyn i chi gwblhau'r holiadur hwn a'i ddychwelyd atom erbyn dydd Gwener 27 Medi 2019. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i asesu ac adolygu'r cynllun peilot er mwyn i ni allu gwneud argymhellion am unrhyw prosiectau yn y dyfodol sy'n ymwneud â newyn gwyliau. Byddai'n well gennym petaech yn cwblhau'r daenlen hon yn electronig os yn bosibl. Fel arall, byddwch yn derbyn copi wedi'i hargraffu y gallwch ei chwblhau a'i dychwelyd atom drwy'r post. Gallwch hefyd argraffu'r ffurflen hon er mwyn ei chwblhau â llaw.		
I gael cymorth i gwblhau'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch gweinyddwr neu Kirsten Geary (Llywodraeth Cymru) 0300 062 8541 kirsten.geary@wales.gov		
Am y lleoliad		
Gweinyddwr	Y sefydliad sy'n gwneud y taliad i'r lleoliad, er enghraifft enw'r Awdurdod Lleol neu Clybiau Plant Cymru	
Enw'r lleoliad	Yr hyn rydych yn galw eich clwb/grŵp/cynllun	
Côd post y lleoliad		
Rhif cofrestru AGC (os yw'n berthnasol)	Os yw'n berthnasol	
Iaith y ddarpariaeth	Cymraeg / Saesneg / Cymraeg a Saesneg / Arall	
Os arall, rhwch fanylion		
Ydych chi'n darparu gwasanaeth cynhwysol?	Ydyn / Nac ydyn	
Os ydych, pwy oeddech chi'n gallu eu cynnwys (er enghraifft, plant ag anghenion arbennig)?		
Ynglŷn â'r cynllun peilot		
A oedd gennych unrhyw weithgareddau rhieni neu weithgareddau teuluol?	Oedd / Nac oedd	
Os oedd, disgrifiwch		
Cyn y cynllun peilot, a oedd bwyd yn rhan o'ch darpariaeth?	Oedd / Nac oedd	
Sut wnaethoch ddefnyddio'r cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â newyn gwyliau?		
Ydych chi'n credu bod cyllid y cynllun peilot wedi helpu i fynd i'r afael â newyn gwyliau yn effeithiol?	Ydyn / Nac ydyn	
Manylwch		
A wnaeth y plant hefyd ddod â'u prydau / byrbrydau eu hunain?	Do / Naddo	
Sut effeithiodd hyn ar eich darpariaeth o brydau bwyd?		
Beth aeth yn dda gyda'r cynllun peilot hwn?		
Beth y gellid fod wedi ei wella?		
Unrhyw sylwadau eraill?		

Cwestiynau am y Clwb / Grŵp / Cynllun Hwn

Byddwch yn onest wrth ateb, a pheddiwch ag ysgrifennu eich enw ar y papur. Atebwch bob cwestiwn a thiciwch un blwch ar bob llinell. Gofynnwch am help os ydych yn ansicr ynghylch cwestiwn.

Enw'r Clwb/Grŵp/Cynllun:		Eich oedran	
		Bachgen neu ferch	

C1. Beth oedd eich barn ynghylch ...	Hoffi ☺	lawn ☺	Ddim yn hoffi ☹
1. Y clwb/grŵp/cynllun hwn?			
2. Chwarae yn y clwb/ grŵp/cynllun hwn?			
3. Bwyd yn y clwb/ grŵp/cynllun hwn?			

C2. Ar y diwrnodau pan aethoch i'r clwb/ grŵp / cynllun hwn ...	Do ✓	Naddo X	Ddim yn siŵr ?
1. A wnaethoch chi roi cynnig ar wneud rhywbeth newydd?			
2. A wnaethoch chi fwyta'r bwyd a ddarparwyd?			
3. A wnaethoch chi roi cynnig ar fwyd neu ddiod newydd am y tro cyntaf?			
4. A wnaethoch chi deimlo'n llai llwglyd o'u cymharu â'r diwrnodau pan oeddech gartref?			
5. A wnaethoch chi dreulio amser gyda'ch ffrindiau?			
6. A wnaethoch chi gwrdd â phobl newydd?			

C3. Dros wyliau'r ysgol ...	Clwb ☀	Gartref 🏠	Yr un maint
1. A wnaethoch chi fwyta mwy ar y diwrnodau yr oeddech yn y clwb/grŵp/cynllun neu gartref?			
2. A wnaethoch chi fwyta mwy o ffrwythau/llysiau ar y diwrnodau yr oeddech yn y clwb/grŵp/cynllun neu gartref?			
3. A wnaethoch chi fwyta mwy o fyrbrydau llawn siwgr (e.e. bisgedi, melysion, siocled) ar y diwrnodau yr oeddech yn y clwb/grŵp/cynllun neu gartref?			
4. A wnaethoch chi yfed mwy o ddiodydd llawn siwgr a swigod ar y diwrnodau yr oeddech yn y clwb/grŵp/cynllun neu gartref?			
5. A wnaethoch chi wneud mwy o ymarfer corff ar y diwrnodau yr oeddech yn y clwb/grŵp/cynllun neu gartref?			

C4. Dywedwch wrthon ni

Beth oeddech chi'n ei hoffi?	Beth nad oeddech chi ddim yn ei hoffi?
Unrhyw beth arall?	

Dyna ddiwedd yr arolwg. Diolch yn fawr am ein helpu

Cwestiynau am y Clwb / Grŵp / Cynllun Hwn

Byddwch yn onest wrth ateb, a pheidiwch ag ysgrifennu eich enw ar y papur. Caiff eich atebion eu cadw'n gyfrinachol. Atebwch bob cwestiwn a rhowch gylch o amgylch eich atebion.

Enw'r Clwb / Grŵp / Cynllun:		Perthynas â'r plentyn/plant	
		Nifer y plant sy'n mynd i'r clwb/grŵp/cynllun	

C1. Beth yw eich barn ynghylch pryd mae'r clwb/grŵp/cynllun gwyliau hwn ar gael (e.e. amseroedd, diwrnodau, wythnosau)?	Rhagorol	Da	lawn	Gwael	Ofnadwy
Ymhelaethwch ar eich ateb i C1					

C2. Pe na fyddai'r clwb/grŵp/cynllun hwn wedi bod ar gael eleni, ble byddai eich plant?	Gartref ar eu pen eu hunain	O dan eich gofal chi	O dan ofal perthynas neu ffrind sy'n oedolyn	O dan ofal brawd neu chwaer hŷn	Mewn gofal plant y byddai'n rhaid talu amdano
	Arall	Nodwch			

C3. A oedd unrhyw weithgareddau i rieni yn y clwb/grŵp/cynllun hwn?			Oedd	Nac oedd	Ddim yn siŵr
Os oedd, a gymeroch ran?	Do	Naddo			
Os cymeroch ran, beth yw eich barn am y gweithgareddau i rieni?	Rhagorol	Da	lawn	Gwael	Ofnadwy

C4. A oedd prydau i'r teulu ar gael yn y clwb/grŵp/cynllun hwn?			Oedd	Nac oedd	Ddim yn siŵr
Os oedd, a gymeroch ran?	Do	Naddo			
Os cymeroch ran, beth yw eich barn am y prydau i'r teulu?	Rhagorol	Da	lawn	Gwael	Ofnadwy

C5. Sut mae'r clwb/grŵp/cynllun wedi bod o fudd i'ch plentyn/plant? <i>Rhowch gylch o amgylch pob ateb sy'n berthnasol</i>	Bwyta yn fwy iach	Gwell ymddygiad	Cymdeith asu	Cael ymarfer corff	Cael hwyl
	I weld yn hapusach	Ceisio pethau newydd			
Unrhyw fuddion eraill					

C6. Sut mae eich plentyn/plant yn mynychu'r cynllun wedi bod o fudd i chi? Rhowch gylch o amgylch pob ateb sy'n berthnasol	Helpu gyda chostau gofal plant	Helpu gyda chostau gwylia'r ysgol	Helpu gyda chostau bwyd dros gwyliau'r ysgol	Darparu gweithgareddau i'r plentyn/plani	Rhoi amser i chi eich hun
Unrhyw fuddion arall					

C6. Unrhyw sylwadau arall	
---------------------------	--

Dyna ddiwedd yr arolwg. Diolch yn fawr am ein helpu